

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Adroddiad y Pwyllgor Plant,
Pobl Ifanc ac Addysg

Chwefror 2025



Cynnwys

Argymhellion.....	4
1. Cefndir	7
Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26.....	7
Ein dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft	8
2. Materion trawsbynciol	10
Tryloywder ynghylch gwariant ar blant.....	10
Tlodi.....	17
Yr heriau ariannol sy'n wynebu elusennau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.....	20
Ein barn ni.....	21
3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol	26
Penawdau	26
Amseroedd aros.....	27
Iechyd corfforol	28
Iechyd meddwl	31
Gwasanaethau niwroddatblygiadol.....	33
Gofal cymdeithasol.....	34
Gofal plant.....	37
Ein barn ni.....	41
4. Addysg.....	45
Penawdau	45
Cyllid i ysgolion.....	47
Medr.....	55

Materion eraill yn ymwneud ag addysg ôl-16.....	58
Cyllid cyfalaf.....	60
Ein barn ni.....	62

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru dreialu cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar lefel strategol, ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27.22

Argymhelliad 2. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y Datganiad Ansawdd arfaethedig ar iechyd plant a'r swydd arweinydd clinigol ar gyfer iechyd plant sydd newydd gael ei chreu, gan gynnwys:.....23

- union rôl a chyfrifoldebau'r arweinydd clinigol ar gyfer iechyd plant, gan gynnwys sut y bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella gwasanaethau iechyd plant;23

- y cysylltiad rhwng rôl yr arweinydd clinigol ar gyfer iechyd plant a'r datganiad ansawdd ar gyfer iechyd plant, a sut y bydd y mentrau hyn yn ysgogi gwelliannau mewn canlyniadau iechyd i blant a phobl ifanc;.....23

- i ba raddau y bydd yr arweinydd clinigol a'r datganiad ansawdd yn gwella tryloywder o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ac yn dyrannu cyllid ar gyfer iechyd plant, ac atebolrwydd amdano; a23

- sut y bydd y strwythurau hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro gwariant, mesur canlyniadau gofal iechyd i blant (y tu hwnt i allbynnau'n unig), a dwyn byrddau iechyd i gyfrif.23

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae'r cysylltiad o ran cymhwystra rhwng y Grant Datblygu Disgyblion a'r hawl i brydau ysgol am ddim yn rhwystr i ymestyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd, o ystyried bod pryderon tebyg wedi'u goresgyn yn achos cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd..... 24

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau ei hasesiad o effaith y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar bob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru, a hynny ar fyrder.....25

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gymorth, os o gwbl, y bydd yn ei ddarparu i sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau i blant yng Nghymru (neu i'r cyrff cyhoeddus sy'n comisiynu'r gwasanaethau hynny) i

sicrhau nad oes effaith andwyol ar ymyriadau rheng flaen hanfodol ar gyfer plant a phobl ifanc o ganlyniad i gynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.25

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir:..... 41

- y dystiolaeth a'r data penodol a ddefnyddiwyd i ddatblygu a gwerthuso'r strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach; 41
- y dystiolaeth a'r data penodol sy'n sail i'r penderfyniad i symud tuag at fwy o ffocws ar blant o fewn y strategaeth honno; a 42
- sut y mae llwyddiant yn cael ei fesur yn y rhaglen Pwysau Iach Cymru Iach ar gyfer plant, gan gynnwys pa ganlyniadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni a phryd..... 42

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir:..... 43

- sut y mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn darparu cyllid i gefnogi teuluoedd sy'n aros am asesiadau niwrowahaniaeth, ac i'w helpu ar ôl iddynt gael diagnosis; a 43
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cymorth hwn yn gyson rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac ar gael i deuluoedd ledled Cymru gyfan..... 43

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen gyfredol ar gyfer cyflwyno cam 3 o ofal plant Dechrau'n Deg yn llawn, gan amlinellu'n glir gostau pob cam o'r broses weithredu, i ba raddau y telir y costau hynny gan Gyllideb Ddrafft 2025-26 neu y rhagwelir y bydd cyllidebau yn y dyfodol yn eu talu, cerrig milltir allweddol y broses weithredu, ac unrhyw rwystrau i gyflwyno'r cynllun (rhwystrau ariannol neu rwystrau eraill). 43

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r trefniadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion, gan gynnwys:.....63

- sut y bydd y cydweithio ychwanegol rhwng ysgolion yn cael ei hwyluso gan y trefniadau a'r strwythur newydd, yn hytrach na'r model consortia rhanbarthol; 63
- y rhesymeg dros greu'r corff Cymorth Dysgu ac Arweinyddiaeth Proffesiynol Cenedlaethol newydd, pa weithgaredd dysgu proffesiynol y bydd yn

ei ddarparu, a sut y bydd hyn yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion a'r gwaith o wella ysgolion; a63

- rôl ymarferol Tîm Gwella Addysg canolog Llywodraeth Cymru, a pha rhyngweithio y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion unigol ddisgwyl ei gael gyda'r tîm hwnnw.....63

Argymhelliad 10. Dylai Medr roi gwybodaeth inni am ei gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025-26, a gweithio gyda ni wrth inni sefydlu patrwm o waith craffu blynyddol ar ei gyllideb arfaethedig a'i adroddiad blynyddol a chyfrifon er mwyn sicrhau bod Medr yn cael ei ddwyn i gyfrif am sut y mae'n defnyddio cyllid cyhoeddus i gefnogi addysg drydyddol ledled Cymru..... 64

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach ei chynlluniau i ailwampio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhaglen Seren i gynnwys dysgwyr ar lwybrau galwedigaethol, amserlen ar gyfer gweithredu'r cynlluniau hynny, a sut y mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cwmpasu unrhyw gostau ariannol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau.....65

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae'r £20 miliwn o bunnoedd a glustnodwyd ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion yn 2024-25 wedi'i ddsbarthu fel gwariant cyfalaf er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru i'r gwrthwyneb; dylai nodi pam na ddarparwyd y cyllid hwn drwy'r Setliad Llywodraeth Leol; a dylai egluro a yw'r cyllid hwn ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw wedi bod yn rhan o'r llinellau sylfaen cyfalaf/refeniw ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26, ac a yw'n debygol o fod yn rhan ohonynt yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.....65

1. Cefndir

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

1. Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 ar 10 Rhagfyr 2024.¹ Mae'n nodi gwariant adnoddau a chyfalaf a chynlluniau trethiant ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 i Fawrth 2026.

2. Teitl naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yw 'Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair'. Yn ei ragair, dywed Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg:

*"Nid fydd y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2025-26 yn datrys pob problem nac yn trwsio pob peth – ac ni ddylem ddisgwyl iddi wneud hynny. Mewn llawer o feysydd, mae'r setliadau o ran adnoddau yn dynn, ac mae pwysau'n parhau. Mae'r hinsawdd ariannol gyffredinol yr ydym ni i gyd yn gweithredu ynddi yn heriol o hyd. Ond am y tro cyntaf, ers amser maith, mae'r gyllideb hon yn rhoi optimistiaeth inni am ddyfodol mwy disglair."*²

3. Aiff y naratif ymlaen i nodi pedair blaenoriaeth y mae cynlluniau gwariant y Gyllideb Ddrafft wedi'u seilio arnynt:

- Iechyd da: lleihau amseroedd aros yn y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl, gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod;
- Swyddi a thwf gwyrdd: creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill, a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru;
- Cyfle i bob teulu: hybu safonau mewn ysgolion a cholegau a darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo; a

¹ Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025 i 26', 10 Rhagfyr 2024

² Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair', Rhagfyr 2024, tudalen 3

- Cysylltu cymunedau – trawsnewid ein rheilffyrdd a darparu gwell rhwydwaith bysiau; trwsio ein ffyrdd a grymuso cymunedau lleol i wneud dewisiadau ar y terfyn cyflymder 20mya.³

4. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn dyrannu cyfanswm o £25.8 biliwn (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol). Mae hyn tua £1.5 biliwn yn fwy mewn termau arian parod o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru⁴ ar gyfer 2024-25. Ceir cynnydd o £1 biliwn (neu 4.7%) yn y gwariant refeniw cyffredinol arfaethedig o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig mewn termau arian parod. Ceir cynnydd o £675 miliwn (neu 24.1%) yn y gwariant cyfalaf cyffredinol arfaethedig o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig mewn termau arian parod.

Ein dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft

Craffu ar Lywodraeth Cymru

5. Fe wnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar 17 Hydref 2024 i ofyn am wybodaeth i gefnogi ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.⁵ Daeth ymatebion i law ar 13 Rhagfyr 2024.⁶

6. Clywsom dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a'i weinidogion ar 9 Ionawr 2025, a chan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'i Gweinidog ar 16 Ionawr 2025.

7. Rydym yn gwerthfawrogi bod amserlen graffu'r Gyllideb Ddrafft yn heriol i Lywodraeth Cymru ac i'r Senedd. Rydym yn ddiolchgar i Weinidogion a swyddogion am eu cefnogaeth drwy gydol y broses graffu, ac am eu hymatebion cynhwysfawr ac amserol i'n ceisiadau am wybodaeth ysgrifenedig.

³ Llywodraeth Cymru, '[Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair](#)', Rhagfyr 2024, tudalen 5

⁴ Mae'r graddau y mae'r gyllideb yn cynyddu ar gyfer 2025-26 o gymharu â 2024-25 yn dibynnu ar y man cychwyn ar gyfer cymharu. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cymariaethau rhwng dyraniadau cyllideb 2025-26 a 2024-25 gan ddefnyddio llinell sylfaen sydd wedi'i diwygio'n sylweddol, yn hytrach na defnyddio'r Gyllideb Derfynol neu'r Gyllideb Atodol Taf ar gyfer 2024-25 fel ei llinell sylfaen. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yma: Llywodraeth Cymru, '[Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair](#)', Rhagfyr 2024, tudalen 6.

⁵ [Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol; y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol; a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant](#), 17 Hydref 2024; [Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch](#), 17 Hydref 2024

⁶ Llywodraeth Cymru, '[Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2025-26](#)', Rhagfyr 2024; Llywodraeth Cymru, '[Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Y Prif Grŵp Gwariant \(MEG\) Addysg](#)', Rhagfyr 2024

8. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn wedi'u talgrynnu i 1 lle degol, oni bai bod angen penodoldeb pellach er eglurder.

Gweithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd

9. Eleni, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi arwain gwaith craffu pwyllgorau'r Senedd ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae ei waith wedi cynnwys:

- cynnal sawl gweithgaredd ymgysylltu i gasglu barn ar ble y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwariant yn ei chyllideb arfaethedig. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ymgysylltu cryno ar 5 Gorffennaf 2024;⁷
- cynnal ymgynghoriad i geisio barn ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru;⁸ a
- gohebu â Llywodraeth Cymru ynghylch amserlen y Gyllideb Ddrafft a'r trefniadau craffu.⁹

10. Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid, a'r swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor, am eu gwaith, sydd wedi bwydo'n uniongyrchol i'n gwaith craffu ni ar y Gyllideb Ddrafft. Hoffem hefyd ddiolch i'r sefydliadau a'r unigolion a fu'n ymwneud â gwaith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft drwy waith y Pwyllgor Cyllid neu waith arall.

11. Rydym hefyd wedi cyfarwyddo'r swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor hwn i gyd-drafod â'r rhai sy'n cefnogi pwyllgorau sydd â chylchoedd gwaith sy'n gorgyffwrdd, lle y bo'n berthnasol, er mwyn cydgysylltu'r gwaith craffu yn well ar draws y Senedd.

⁷ Senedd Cymru, '[Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26](#)', Gorffennaf 2024

Senedd Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26](#)'

⁹ I weld y llythyrau, gweler: Senedd Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26](#)'

2. Materion trawsbynciol

Tryloywder ynghylch gwariant ar blant

Cefndir

12. Ymgorfforodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn y gyfraith drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ("Mesur 2011"). Mae'r Mesur yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion CCUHP. Mae Erthygl 4 o CCUHP yn arbennig o berthnasol i'n gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Dywed y dylai gwledydd ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn gweithredu hawliau plant.¹⁰

13. Fel rhan o weithredu Mesur 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) fel ei hofferyn i archwilio effeithiau posibl ei phenderfyniadau ar blant. Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio bod CRIA yn galluogi ei swyddogion i ystyried effaith unrhyw benderfyniad arfaethedig yn ymwneud â'r gyfraith, polisi neu gyllideb ar blant a'u hawliau, ac i ymgorffori CCUHP wrth wneud penderfyniadau.¹¹

14. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi CRIA ar ei Chyllideb Ddrafft. Yn lle hynny, mae'n cynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA). Noda fod yr SIIA yn rhoi ystyriaeth i ofynion statudol allweddol, gan gynnwys CCUHP:

"Mae Llywodraeth Cymru'n parhau o'r farn bod cynnal asesiadau effaith drwy ddull integredig yn ein galluogi i feithrin dealltwriaeth well o effaith penderfyniadau ar wariant, gan geisio deall effeithiau trawstoriadol ac anfwriadol gwariant yn well er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith orau bosibl."¹²

15. Bob blwyddyn ers dechrau'r Chweched Senedd (a chyn hynny gan y pwyllgorau a'n rhagflaenodd) rydym wedi dadlau y dylai Llywodraeth Cymru

¹⁰ UNICEF, 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn', cadarnhawyd ar 20 Tachwedd 1989, tudalen 4

¹¹ Llywodraeth Cymru, 'Cyhoeddi asesiadau effaith hawliau plant'

¹² Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025-26 Llywodraeth Cymru: Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol', Rhagfyr 2024, tudalen 4

gynnal a chyhoeddi CRIA ar ei Chyllideb Ddrafft i nodi'n glir sut y mae ei chynlluniau gwariant yn gweithredu hawliau plant. Rydym wedi gwneud yr argymhellion hyn oherwydd nid yw'r dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru na'r SIIA yn ei gwneud yn glir faint y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wario ar blant a phobl ifanc. O ganlyniad, nid ydym wedi gallu bodloni ein hunain bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau fel y nodir yn Erthygl 4 o CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ein hargymhellion yn gyson.

16. Nid dim ond ni sy'n codi pryderon ynghylch tryloywder y gwariant ar blant yng Nghyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru. Mewn papur ar y cyd, mae Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus yn dadlau y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu a chyhoeddi CRIA ar ei Chyllidebau Drafft, gan ddadlau nad yw'r SIIA yn dangos cydymffurfiaeth â CCUHP:

“Fundamentally, the SIIA failed to make clear, as per Article 4, whether the “maximum available resources” to fulfil UNCRC obligations were being met. The lack of transparency across the Ministerial portfolios, made it very difficult to track and assess, changes in funding allocations to specific policy priorities, and policy programmes as well as proportion of spend on children.”

Aiff y cyflwyniad ymlaen i argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi CRIA ar y Cyllideb Ddrafft.¹³ Mae 9 elusen fawr sy'n gweithredu yng Nghymru yn gwneud galwadau tebyg yn eu hymateb ar y cyd i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid. Ychwanega eu papur:

“it is also unclear what involvement children and young people have had in informing the Draft Budget and in budget setting more broadly over the past year, despite the obligation to ensure that children and young people are involved in all decisions which affect them.”¹⁴

Eglurder y gwariant ar blant yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB25-26647, Dr Rhian Croke, Arweinydd Ymglyfreitha Strategol ac Eirioli Polisi, Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a Matthew Court, Cyfreithiwr Cymru, Prosiect Cyfraith Gyhoeddus

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB25-26(6)48: Elusennau cenedlaethol plant (Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home Start Cymru, Cymdeithas y Plant, Gwasanaeth Eirioli Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant)

- 17.** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, un o'r prif heriau i ni wrth gyfrifo faint o arian y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wario ar blant yn 2025-26 yw'r ffaith nad yw'r ffigurau yn y Gyllideb Ddrafft yn dynodi gwariant a fwriedir ar gyfer plant.
- 18.** Mae hyn yn arbennig o amlwg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae mwy na hanner (55 y cant) o gyllideb refeniw gyfan Llywodraeth Cymru wedi'i dyrannu i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae rhai Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) o fewn y MEG hwnnw wedi'u targedu'n glir at blant, fel y trafodwn ym mhennod 3. Fodd bynnag, mae 83 y cant o wariant refeniw ar iechyd a gofal cymdeithasol yn dod o dan un llinell wariant o'r enw 'Dyraniadau Craidd y GIG', a ddefnyddir i ariannu byrddau iechyd Cymru. Nid yw cyllid byrddau iechyd yng Nghymru wedi'i neilltuo, gan roi disgresiwn i fyrddau iechyd ynghylch gwariant, ar yr amod eu bod yn bodloni eu dyletswyddau statudol ac unrhyw amodau cyllido a bennir gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, effaith gyffredinol y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yw ei bod yn amhosibl pennu'r gyfran o'r gyllideb refeniw £12.2 biliwn a ddyrennir i, neu a werir gan, wasanaethau plant a gwasanaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar blant.
- 19.** Mae hyn hefyd yn wir, ond i raddau llai, mewn perthynas ag ysgolion. Mae ychydig dros £2 biliwn o wariant refeniw wedi'i ddyrannu i'r MEG Addysg, sy'n cael ei rannu ymhellach yn BEL unigol sy'n nodi'n gymharol glir a fydd y gwariant arfaethedig o fudd i blant. Fodd bynnag, daw'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer ysgolion oddi wrth awdurdodau lleol drwy'r MEG Tai a Llywodraeth Leol, ac nid yw'r cyllid hwnnw – yn union fel y cyllid i fyrddau iechyd – wedi'i neilltuo. Ar gyfer 2025-26, mae tua £5 biliwn o gyllid wedi'i ddyrannu i'r BEL 'Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol', nad yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach. Mae'n amhosibl gwybod felly faint o'r arian hwnnw a gaiff ei wario ar addysg plant (neu yn wir, ar wasanaethau eraill i blant y telir amdanynt o gyllidebau craidd awdurdodau lleol, megis gwariant gofal cymdeithasol).
- 20.** Er bod yr SIIA sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft 2025-26 yn cynnwys rhai pwyntiau am blant (gweler ffigur 1 isod), nid yw'n rhoi unrhyw eglurder ychwanegol inni ynghylch faint o'r gwariant a gynigir yn y Gyllideb Ddrafft a gaiff ei ddyrannu i blant, ac nid yw ychwaith yn manylu ar sut y mae Asesiad Effaith ar Hawliau Plant wedi cael ei ddefnyddio fel sail i'r dyraniadau.

Ffigur 1. Cyfeiriadau sylweddol at blant yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cydfynd â Chyllideb Ddrafft 2025-26. Addaswyd o: Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025-26 Llywodraeth Cymru: Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol', Rhagfyr 2024, tudalennau 7-12

Tlodi

- Mae tlodi'n effeithio'n anghymesur ar aelwydydd â phlant.
- Mae cyfraddau amddifadedd materol wedi cynyddu'n gyffredinol ymhlith oedolion o oedran gweithio, a phlant a'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n wynebu'r risg fwyaf.
- Plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol, ac mae cyfraddau'n parhau i fod yn sylweddol uchel.
- Mae anghydraddoldebau'n ehangu, mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar incwm pobl, ac mae plant a phobl ifanc yn dioddef yn waeth ers y pandemig. Nid oes llawer o dystiolaeth eto bod y tueddiadau ehangach hyn yn newid.
- Teuluoedd â phlant sydd hefyd yn wynebu'r perygl mwyaf o ddiffyg diogeledd bwyd, gyda mwy o angen o ran defnyddio banciau bwyd
- Plant o aelwydydd tlotach sydd â'r risg fwyaf o dderbyn gofal a datblygu cyflyrau iechyd meddwl, gan gynyddu eu siawns o wynebu caledi pan fyddant yn oedolion.

Addysg

- Plant difreintiedig ledled Cymru sydd â'r sgoriau addysgol isaf o ran darllen a gwyddoniaeth, a'r ail isaf ar gyfer mathemateg, o'i gymharu â gwledydd eraill y DU.

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo'r effeithiau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ond mae'r effeithiau negyddol yn debygol o daro'r rhai mwyaf agored i niwed yn galetach, gan gynnwys plant.
- Mae'r galw am ofal iechyd meddwl hefyd yn parhau i fod yn sylweddol uchel ymhlith plant a phobl ifanc.

- Mae'r adroddiad 'A yw Cymru'n Decach' yn nodi mai Cymru sydd â'r galw mwyaf am dimau iechyd meddwl cymunedol i blant a phobl ifanc yn y DU.

Plant anabl

- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau na phobl nad ydynt yn anabl, a chafwyd adroddiadau diweddar am blant a phobl ifanc anabl yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran gofal plant cyfartal a mynediad at addysg.

Tai

- Mae Sefydliad Bevan yn adrodd ar yr argyfwng tai presennol gyda'r nifer fwyaf erioed o aelwydydd yn cael eu rhoi mewn llety dros dro o ansawdd gwael ar hyn o bryd, ac mae gan eu hanner blant.

21. O ystyried bod y mwyafrif sylweddol o ddyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc heb eu neilltuo, aethom ar drywydd cwestiynau ynghylch tryloywder gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

22. Yn ystod y gwaith craffu y llynedd ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, dywedodd Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

*"... As you're aware, we don't hypothecate within health to any particular groups, but what we do within our planning framework is to make clear that there is an expectation that they have to show to us, when they come up with their plans—which, obviously, we haven't had yet, but we have issued the planning framework to them—that children and young people are ring-fenced within that planning framework"*¹⁵

Fodd bynnag, yn ysgrifenedig, eglurodd y Gweinidog hyn, gan ddweud "nid yw dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u neilltuo o safbwynt cyllido."¹⁶ Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw Fframweithiau Cynllunio'r GIG ar gyfer 2025-28 na llythyrau Dyrannu Byrddau Iechyd wedi'u cyhoeddi. Ni allwn felly weld i ba raddau y mae gwasanaethau i blant wedi cael eu blaenoriaethu yn y dogfennau strategol allweddol hynny.

¹⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 7-9

¹⁶ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Ionawr 2024

23. Yng ngoleuni eglurhad y cyn Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol y llynedd, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a yw wedi ystyried neilltuo cyfran benodol o'r gyllideb iechyd yn benodol i wasanaethau plant, ac os nad yw, a all fod yn hyderus bod iechyd plant yn cael ei flaenoriaethu gan fyrddau iechyd. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y byddai clustnodi cyllid ar gyfer gwasanaethau plant yn heriol. Ychwanegodd:

“The premise of the system that we have in Wales is that the Government sets the policy requirement for the health service, and the outcomes that it expects the health service to deliver, and the health service is held accountable for that through a very comprehensive range of accountability mechanisms, but the principle at the heart of it is that local health boards are in a better position to assess the health needs of their local population than the national Government is.”

Dywedodd mai sicrhau canlyniadau yw prif ddiddordeb Llywodraeth Cymru, a dadleuodd fod clustnodi arian yn ymwneud â mewnbynnau. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru yn gallu mesur i ba raddau y mae byrddau iechyd yn cyflawni eu rhwymedigaethau i blant a phobl ifanc ar ôl y digwyddiad.¹⁷

24. Fe wnaethom ofyn cwestiwn tebyg i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am gyllid addysg: a yw'n hyderus y bydd awdurdodau lleol yn blaenoriaethu ysgolion yn eu penderfyniadau ynghylch sut i wario eu Grant Cynnal Refeniw. Pwysleisiodd fod gan lywodraeth leol y rhyddid i wneud dewisiadau yn seiliedig ar ddemocratiaeth leol. Fodd bynnag, dywedodd:

“[local authorities' funding] increase from us was 3.3 per cent, and schools expenditure per pupil is budgeted to be £7,926—a year-on-year increase of 8.2 per cent, or £599. So, I think the figures show that local authorities are prioritising school funding.”¹⁸

25. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio'n benodol at gyllid ar gyfer asesiadau mewn perthynas â niwrowahaniaeth yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, yr ydym yn edrych arni'n fanylach yn ddiweddarach yn

¹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 12-23

¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

yr adroddiad hwn (gweler paragraff 75).¹⁹ Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a allai rannu unrhyw enghreifftiau mwy penodol o wariant arfaethedig sy'n dangos y bydd plant a phobl ifanc yn elwa o'r cynnydd yng nghyllideb y GIG.

26. Dywedodd wrthym fod elfen sylweddol o'r cyllid newydd yn y MEG lechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â chyflogau a phensiynau ar gyfer y gweithlu, sy'n galluogi'r gwasanaeth ei hun i fod yn fwy cynaliadwy ac yn cefnogi iechyd plant mewn amrywiaeth eang o ffyrdd eraill hefyd. Aeth ymlaen i sôn yn benodol am Dechrau'n Deg a'r rhaglen Cynllun Gwên fel enghreifftiau o gyllid ar gyfer plant o fewn ei gyllideb.²⁰

27. Aethom ymlaen i drafod ein barn hirsefydlog y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi CRIA ar y Gyllideb Ddrafft. Fe wnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chyhoeddi asesiad effaith penodol ar hawliau plant ar Gyllideb Ddrafft 2025-26.

28. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol wrthym fod CRIA yn cael eu cynnal yng nghyd-destun datblygiadau polisi penodol. Ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, a ddisgrifiodd fel proses gydgysylltiedig, mae'n well gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r SIIA. Ychwanegodd na allai "roi sicrwydd... ein bod ni'n bwriadu newid o'r safbwynt hwnnw". Dywedodd y bydd yr arweinydd clinigol newydd ar gyfer iechyd plant yn helpu'r Llywodraeth i roi ffocws ar bob un o'r cwestiynau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, a ffocws cryfach nag a roddir iddynt ar hyn o bryd. Ymrwymodd i ysgrifennu atom gyda rhagor o wybodaeth am y datganiad ansawdd arfaethedig ar gyfer iechyd plant.²¹

29. Yn y cyfamser, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod yr SIIA:

"... enables us to identify key trends, cumulative impacts at portfolio level, strategic issues, and it remains the position of the Government that the integrated approach underpinning the SIIA is the best way of understanding the intersectional and unintended impacts of spending decisions."

¹⁹ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalennau 27-28

²⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 4

²¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 22-23 a 38-39

Pwysleisiodd ei hymrwymiad personol i hawliau plant a'i bod bob amser yn awyddus i wneud sicrhau bod y Llywodraeth yn rhoi lleisiau plant wrth wraidd yr hyn a wna, ond ychwanegodd ei fod hefyd yn ymwneud â'r arfer a'r ffordd feunyddiol o weithio a rhoi lle canolog i leisiau plant yng ngwaith Llywodraeth Cymru. Dywedodd wrthym ei fod yn waith sydd ar y gweill.²²

30. Ym mis Medi 2024, creodd Llywodraeth Cymru y swydd 'Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol', a ddisodlodd y swydd Dirprwy Weinidog Gofal Cymdeithasol flaenorol. Fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth ynghylch sut, os o gwbl, y bydd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn monitro gwariant ar blant y tu allan i'r portffolio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi bod y portffolio newydd "yn cynnwys cyfrifoldeb arweiniol dros hawliau plant", yn ogystal ag am ofal plant blynyddoedd cynnar a chwarae.²³ Gofynnwyd am eglurder gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ynghylch yr hyn y mae'r newid yn yr enw yn ei olygu'n ymarferol i'r rôl.

31. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn rhaid i bob gweinidog, waeth beth fo'i bortffolio, roi sylw dyledus i CCUHP. Fodd bynnag, fel Gweinidog sydd â 'phlant' yn y teitl, ei rôl yw canolbwyntio ar hawliau plant drwy gyfrannu at drafodaeth am ddatblygu polisiau a sut y maent yn cael eu cyflawni.²⁴

Tlodi

Prydau ysgol am ddim, Hanfodion yr Ysgol a'r Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA)

32. Mae mesurau lliniaru tlodi allweddol o fewn y MEG Addysg yn cynnwys:

- Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd: dyrannwyd £93.5 miliwn o gyllid refeniw yn 2024-25 i gyflwyno'r cynllun hwn. Ym mis Medi, roedd 174,500 o ddysgwyr newydd yn gymwys i gael pryd. Mae £93.5 miliwn pellach wedi'i ddyrannu i'r cynllun ar gyfer 2025-26.²⁵

²² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 53-54

²³ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalennau 6-7

²⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 26-27

²⁵ Llywodraeth Cymru, 'Papur dystiolaeth ar Cyllideb Ddrafft 2025-26 - Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalennau 14-15

- Hanfodion Ysgol: grant i deuluoedd cymwys brynu gwisg ysgol ac offer. Derbyniodd teuluoedd 90,000 o ddysgwyr y grant yn 2023-24. Sicrhawyd bod £13.1 miliwn ar gael ar gyfer y grant yn 2024-25. Mae'r gyllideb yn cael ei harwain gan y galw, ac yn cael ei chynnal ar yr un lefel yn 2025-26.²⁶
- Y Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA): cynyddwyd cyfradd yr LCA o £30 i £40 yng Nghymru o fis Ebrill 2023, yn dilyn argymhellion a wnaed gennym yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24. Dywedodd Llywodraeth Cymru, yn dilyn adolygiad o'r LCA (a ddigwyddodd hefyd yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor hwn), y byddai'r trothwy incwm aelwydydd yn cael ei newid er mwyn i 3,500 o ddysgwyr ôl-16, yn ôl yr amcangyfrif, fod yn gymwys i gael y lwfans.²⁷

33. Gofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried buddsoddi ymhellach yn y mesurau hyn, sydd wedi'u targedu at y teuluoedd â'r incwm isaf. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym y byddai ymestyn y trothwy incwm ar gyfer cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd yn flaenoriaeth iddi yng nghylchoedd y gyllideb yn y dyfodol. Eglurodd mai un rhwystr i ymestyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd oedd y cysylltiad rhwng darparu prydau ysgol am ddim a chymorth arall wedi'i basbortio fel y grant datblygu disgyblion i ysgolion a'r grant hanfodion ysgol i deuluoedd, a'i bod yn awyddus iawn i beidio â thorri'r cysylltiad hwnnw. Ymrwymodd i anfon nodyn atom yn nodi costau uwchraddio'r hawl i brydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.²⁸ Yn ddiweddarach, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gwario £13 miliwn y flwyddyn ar y grant hanfodion ysgol.²⁹

34. Dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wrthym fod cyfradd yr LCA wedi'i chynyddu o £30 i £40 yr wythnos yn 2023, sy'n golygu mai dyma'r LCA mwyaf hael yn y DU. Esboniodd fod Llywodraeth Cymru, yn y gyllideb hon, hefyd wedi cynyddu'r trothwy incwm aelwydydd ar gyfer yr LCA, y mae'n gobeithio y bydd yn arwain at ddarparu'r LCA i 3,500 yn ychwanegol o ddysgwyr ôl-16, gan gynyddu gwariant ar y lwfans i £19.7 miliwn ar gyfer 2025-26. Aeth ymlaen i

²⁶ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalennau 13-14

²⁷ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalen 14. Gweler ein hargymhellion yn: Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25', Chwefror 2024, tudalennau 40-42

²⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 45-46

²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 20 a 37-39

drafod y gronfa ariannol wrth gefn ar gyfer colegau i fynd i'r afael ag anghenion gwahanol eu dysgwyr. Dyrannwyd £6.9 miliwn i'r gronfa honno yn 2024-25; Medr fydd yn pennu'r gyfradd ar gyfer 2025-26.³⁰

Gofal plant

35. Yng Nghymru, roedd 29% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn 2021-23, gan olygu bod plant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi nag unrhyw grŵp oedran arall.³¹ Dadleuodd Sefydliad Bevan, a Sefydliad Joseph Rowntree a Coram mewn adroddiad ar y cyd y gall gofal plant leihau tlodi drwy alluogi rhieni i weithio. Maent yn dadlau o blaid cynnig gofal plant am ddim i bawb.³² Yn yr un modd, nododd Oxfam Cymru fod y rhaglen Dechrau'n Deg (a drafodir uchod) wedi'i chynllunio'n wreiddiol fel mesur gwrthdlodi. Mae'n dadlau y gall aelwydydd incwm isel wario bron i hanner incwm yr aelwyd ar ofal plant ar gyfer plant dwy oed ac nad oes cymorth gofal plant ar gael i rieni plant o dan ddwy oed. Daw i'r casgliad a ganlyn:

“Evidence shows that childcare costs significantly contribute to child poverty, with more than half of children in poverty living in households where the youngest child is aged 0–4.”³³

36. Mae Cynnig Gofal Plant presennol Cymru wedi'i dargedu at rieni sy'n gweithio a'r rheini sydd wedi'u cofrestru ar gwrs addysg bellach neu addysg uwch sy'n para o leiaf 10 wythnos (gweler paragraff 88 ymlaen am fwy o fanylion). Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ariannu'r broses o ehangu gofal plant drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n targedu pob plentyn yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, beth bynnag fo statws cyflogaeth eu rhieni. Pwysleisiodd y Gweinidog y bydd y dyraniad ychwanegol o £20 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer darparwyr gofal plant yn helpu i gynnal lleoliadau gofal plant sy'n darparu lleoedd Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r rhai sy'n cefnogi Cynnig Gofal Plant Cymru.³⁴

³⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 42-44

³¹ Llywodraeth Cymru, 'Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023', 21 Mawrth 2024

³² Sefydliad Bevan, 'Taclu anfantais trwy ofal plant yng Nghymru', Ionawr 2024; Sefydliad Joseph Rowntree a Coram, 'Taclu anfantais trwy ofal plant', Mai 2023

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB25-26639, Oxfam Cymru

³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 144

Yr heriau ariannol sy'n wynebu elusennau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

37. Gostyngodd Cyllideb Hydref y DU 'Drothwy Eilaidd' cyfraniadau Yswiriant Gwladol, sef yr enillion pan fydd yn rhaid i gyflogwr dalu cyfraniadau 'Dosbarth Eilaidd 1'. Fe wnaeth hefyd gynyddu cyfradd cyfraniadau Dosbarth 1. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd 940,000 o gyflogwyr ledled y DU yn gweld eu cyfraniadau Dosbarth Eilaidd 1 yn cynyddu, gan gynnwys cyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac elusennau sy'n darparu gwasanaethau ar ran y sector cyhoeddus.³⁵

38. Bydd llywodraethau datganoledig yn cael cyllid ychwanegol i helpu i liniaru'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus datganoledig (er nad yw'r cyllid hwn wedi'i ddarparu eto ac nid yw'n rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon). Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd y bydd elusennau'n cael cymorth ariannol i'w helpu i liniaru effaith y costau uwch. Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid, galwodd Gofal Canser Tenovus y cynnydd yn y cyfraniadau yn 'ddinistriol', a dadleuodd:

"This increase will very likely force charities to make extremely difficult decisions – cutting services, reducing workforce, or both. Such cutbacks would not only harm the vulnerable individuals we support but also the NHS, which cannot deliver the services we provide at the cost-efficiency we provide."³⁶

Gwnaeth NYAS Cymru sylwadau tebyg.³⁷

39. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol a oedd Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith ychwanegol y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol ar ddarparwyr gofal maeth a gofal preswyl y trydydd sector yn benodol. Fe wnaethom hefyd ofyn am eglurder ynghylch a fyddai eu costau ychwanegol yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol sy'n comisiynu'r

³⁵ Llywodraeth y DU, '[Changes to the Class 1 National Insurance Contributions Secondary Threshold, the Secondary Class 1 National Insurance contributions rate, and the Employment Allowance from 6 April 2025](#)', 13 Tachwedd 2024

³⁶ [Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr Gofal Canser Tenovus at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid](#), 19 Rhagfyr 2024

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [WGDB25-26626 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru](#)

gwasanaethau hyn, y mae eu hadrannau gwasanaethau plant eisoes yn gorwario tua £38 miliwn yn 2024-25 wrth sicrhau lleoliadau preswyl i blant yn unig.³⁸

40. Cydnabu'r Gweinidog fod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â bodloni rhwymedigaethau yswiriant gwladol uwch elusennau yn fater ehangach y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru edrych arno ar draws yr holl ddarparwyr y mae'n gyfrifol am eu cefnogi, yn hytrach na mater sy'n ymwneud yn benodol â gofal cymdeithasol. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru wrthym fod yr asesiad o effeithiau'r cynnydd mewn yswiriant gwladol ar gyfer y trydydd sector yn llawer mwy cymhleth na'r effaith ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Dywedodd wrthym nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud asesiad llwyr o'r effaith bosibl honno eto, ond bod Ysgrifennydd y Cabinet dros gyllid a chydweithwyr yn y Trysorlys yn parhau i gael trafodaeth gyda'r Trysorlys ar y dull gweithredu mewn perthynas â hynny.³⁹

Ein barn ni

Tryloywder ynghylch gwariant ar blant

41. Rydym yn dal i gredu y gallai ac y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i nodi y sut mae ei chyllidebau drafft yn effeithio ar blant a phobl ifanc ac yn ystyried eu hawliau. Ni wnawn ailadrodd ein dadl ni (a dadl llawer o rai eraill) gyda Llywodraeth Cymru ynghylch pa mor bwysig ydyw ein bod yn gallu gweld Asesiad Effaith ar Hawliau Plant y Gyllideb Ddrafft, sy'n ddogfen ar wahân. Fodd bynnag, hoffem amlygu unwaith eto mai deddfwriaeth Llywodraeth Cymru *ei hun* sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth wneud eu penderfyniadau, ac mai Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru *ei hun* sydd wedi pennu'r CRIA fel yr offeryn i ddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyladwy honno.

42. Rydym yn derbyn nad CRIA yw'r offeryn cywir i edrych yn gyfannol ar effaith y Gyllideb Ddrafft ar ystod o wahanol grwpiau. Nid oes gennym farn ynghylch pa mor ddigonol neu beidio yw'r SIIA i gyflawni'r diben penodol hwnnw. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r SIIA yn dangos cydymffurfiaeth â dyletswydd sylw dyladwy CCUHP, a hynny gan mai ychydig iawn o sylw a roddir ynddo i blant a phobl ifanc.

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [WGDB25-26671.Cymdeithas.Cyfarwyddwyr.Gwasanaethau.Cymdeithasol.a.Chymdeithas.Llywodraeth.Leol.Cymru](#)

³⁹ [Y.Pwyllgor.Plant.Pobl.Ifanc.ac.Addysg.9.Ionawr.2025.Cofnod.y.Trafodion](#), paragraffau 173-175

43. Hoffem gyfeirio at ddwy enghraifft o'r Gyllideb Ddrafft eleni i ddangos potensial CRIA i gyfoethogi'r dogfennau a gyhoeddir ochr yn ochr â'r SIIA: gordewdra ymhlith plant a'r galw ar wasanaethau niwroddatblygiadol. Mae'r ddau faes yn her sylweddol i Lywodraeth Cymru ar draws *pob* oed. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis blaenoriaethu rhywfaint o gyllid ychwanegol ar gyfer plant yn benodol yn y meysydd hyn, ac wedi cyhoeddi mentrau polisi yn unol â hynny (gweler paragraffau 66 a 75 am ragor o wybodaeth). Digon hawdd fyddai cynnwys y penderfyniadau hyn fel rhan o CRIA, ynghyd â gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch pam y gwnaed y penderfyniadau hynny, eu heffaith ddisgwyliedig, sut y caiff yr effaith honno ei monitro, ac amcangyfrifon o'u cost ragamcanol. Byddai hyn yn ein helpu ni ac eraill i ddeall sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei chyllid i gefnogi plant. Ond byddai hefyd yn dangos yn effeithiol sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â heriau polisi sy'n effeithio ar lawer ledled y wlad.

44. Ni allwn weld unrhyw reswm o hyd pam na ellid cyhoeddi CRIA ar y Gyllideb Ddrafft ochr yn ochr â'r SIIA. Fodd bynnag, nodwn farn Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi CRIA ar y Gyllideb Ddrafft yn ei chyfanrwydd. Ni welwn fawr o bwynt gwneud yr un argymhellion eto yn yr adroddiad hwn ond i gael yr un ymateb ag a gafwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

45. Yn lle hynny, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried cynnal CRIA o'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn benodol, ar lefel strategol ac fel treial. Credwn y byddai hyn yn gam sylweddol tuag at wella tryloywder maes hollbwysig o'r Gyllideb Ddrafft, ac un sydd heb ei neilltuo i raddau helaeth, tra'n cydnabod yr her sylweddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu CRIA o'r Gyllideb Ddrafft gyfan. Un maes clir i ganolbwyntio arno fyddai CRIA sy'n esbonio effaith newidiadau i linellau'r gyllideb fel ei bod yn glir sut yr ystyriwyd hawliau plant pan wnaed penderfyniadau am gynnydd neu ostyngiad mewn dyraniadau. Dylai hyn fod yn berthnasol ar draws y MEG ac nid dim ond i'r BEL sy'n ymwneud yn benodol â phlant.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru dreialu cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft o fewn y Prif Grŵp Gwariant lechyd a Gofal Cymdeithasol, ar lefel strategol, ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27.

46. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y ddau ddatblygiad diweddar a amlygwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol: y swydd Arweinydd Rhwydweithiau Clinigol Strategol Cenedlaethol newydd ar gyfer iechyd plant a grëwyd o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru, a datblygu datganiad ansawdd ar gyfer iechyd plant. Ar yr olwg gyntaf, mae'r ffocws hwn ar

blant i'w groesawu'n fawr, er ein bod yn nodi nad yw manylion y datganiad ansawdd wedi'u cyhoeddi eto.

47. Ni fydd y naill ddatblygiad na'r llall yn disodli CRIA y Gyllideb Ddrafft yn ei gyfanrwydd, sy'n rhywbeth y mae rhai elusennau, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ac, yn wir, ninnau wedi galw amdano. Fodd bynnag, mae ganddynt y potensial i godi proffil o hawliau plant mewn gwasanaethau gofal iechyd ac – o'u gweithredu'n gywir – dylent ddarparu tremlin glir o Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol, i Weithrediaeth y GIG ac i'r byrddau iechyd eu hunain. Yn y pen draw, rydym yn gobeithio y bydd hwn yn fecanwaith allweddol i hybu hawliau plant a phobl ifanc i ofal iechyd.

48. Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i roi rhagor o wybodaeth inni am y datganiad ansawdd arfaethedig. Fel rhan o'r nodyn hwnnw, gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi sylwadau ar sut y mae'r arweinydd clinigol ar gyfer swydd iechyd plant a datganiad ansawdd yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd ar lefel genedlaethol a bwrdd iechyd.

Argymhelliad 2. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y Datganiad Ansawdd arfaethedig ar iechyd plant a'r swydd arweinydd clinigol ar gyfer iechyd plant sydd newydd gael ei chreu, gan gynnwys:

- union rôl a chyfrifoldebau'r arweinydd clinigol ar gyfer iechyd plant, gan gynnwys sut y bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella gwasanaethau iechyd plant;
- y cysylltiad rhwng rôl yr arweinydd clinigol ar gyfer iechyd plant a'r datganiad ansawdd ar gyfer iechyd plant, a sut y bydd y mentrau hyn yn ysgogi gwelliannau mewn canlyniadau iechyd i blant a phobl ifanc;
- i ba raddau y bydd yr arweinydd clinigol a'r datganiad ansawdd yn gwella tryloywder o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ac yn dyrannu cyllid ar gyfer iechyd plant, ac atebolrwydd amdano; a
- sut y bydd y strwythurau hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro gwariant, mesur canlyniadau gofal iechyd i blant (y tu hwnt i allbynnau'n unig), a dwyn byrddau iechyd i gyfrif.

Tlodi

49. Rydym yn croesawu'r cynnydd yng nghyfradd yr LCA ym mis Ebrill 2023, a chyhoeddiadau diweddar y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ynghylch codi'r trothwyon cymhwystra yn ymwneud ag incwm aelwydydd, sef dau beth y gwnaethom alw amdanynt yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24. Rydym hefyd yn falch o weld bod canfyddiadau'r adolygiad o'r LCA – y buom hefyd yn galw amdano yn yr un adroddiad hwnnw – yn ategu'r dystiolaeth anecdotaidd rydym yn parhau i'w chael fel Pwyllgor ac fel Aelodau unigol: mae'r LCA yn ymyriad hollbwysig ac amhrisiadwy i gefnogi dysgwyr i barhau â'u haddysg ôl-16.

50. Mae prydau ysgol am ddim yn ymyriad pwysig arall sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i liniaru effaith tlodi plant. Nodwn ddyhead Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i edrych ar ymestyn y trothwy ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd. Fel Pwyllgor nid oes gennym farn ar yr estyniad hwnnw eto.

51. Fodd bynnag, fe'n trawyd gan bryder Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch cynnal y cysylltiad rhwng prydau ysgol am ddim a'r Grant Datblygu Disgyblion mewn ysgolion uwchradd, a'r potensial i hynny fod yn rhwystr i ymestyn prydau ysgol am ddim i ysgolion uwchradd. Rydym yn cydnabod y meini prawf cymhwystra cyffredin ar gyfer cyllid Grant Datblygu Disgyblion (sy'n mynd i ysgolion) a phrydau ysgol am ddim (sydd o fudd uniongyrchol i blant a'u teuluoedd). Rydym hefyd yn deall bod cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn fesur procsi o amddifadedd ers tro byd at ddibenion datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau. Ond nid ydym yn glir ynghylch pam mae hyn yn rhwystr i ymestyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd, yn anad dim oherwydd bod pryderon tebyg wedi'u codi – ac yna'u goresgyn – wrth gyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae'r cysylltiad o ran cymhwystra rhwng y Grant Datblygu Disgyblion a'r hawl i brydau ysgol am ddim yn rhwystr i ymestyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd, o ystyried bod pryderon tebyg wedi'u goresgyn yn achos cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd.

Yr heriau ariannol sy'n wynebu elusennau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

52. Rydym yn bryderus iawn am effaith y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar elusennau. Mae'r sector elusennau plant yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen ledled Cymru, yn ogystal â'r gwaith polisi ac eiriolaeth y maent yn ei wneud. Mae rhai o'r sefydliadau yr effeithir arnynt fwyaf gan y newidiadau hyn bron yn gyfan gwbl gyfrifol am ymyriad cynnar hanfodol a gwaith atal gyda'r plant mwyaf agored i niwed. Roedd llawer o'r sefydliadau hyn yn galw am ragor o gymorth ariannol i dalu costau cynyddol cyn cyhoeddiadau Llywodraeth y DU. Heb ymyrraeth bellach, rydym yn poeni y bydd y gwaith amhrisiadwy a wneir gan y trydydd sector ar ran awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn dod yn anghynaliadwy ar ei ffurf bresennol.

53. Rydym yn cydnabod nad Llywodraeth Cymru wnaeth y penderfyniad i gynyddu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yng Nghyllideb Hydref 2024 y DU. Rydym hefyd yn deall bod asesu effaith y cynnydd yn y cyfraniadau ar sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithredu yng Nghymru yn her sylweddol. Serch hynny, o ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi dod yn ddibynnol ar elusennau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau i blant yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu ei gwaith i asesu a lliniaru'r effaith honno.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau ei hasesiad o effaith y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar bob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru, a hynny ar fyrder.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gymorth, os o gwbl, y bydd yn ei ddarparu i sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau i blant yng Nghymru (neu i'r cyrrff cyhoeddus sy'n comisiynu'r gwasanaethau hynny) i sicrhau nad oes effaith andwyol ar ymyriadau rheng flaen hanfodol ar gyfer plant a phobl ifanc o ganlyniad i gynydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Penawdau

54. Yn gyffredinol, cafwyd cynnydd o tua £1.5 biliwn yn y cyllid yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2024-25. Iechyd a gofal cymdeithasol fu'r prif fuddiolwr o ran y cynnydd hwnnw.⁴⁰ Bydd y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael £435 miliwn yn rhagor o gyllid adnoddau a £175 miliwn o gyllid cyfalaf yn 2025-26, ar ôl cael cynnydd o £447 miliwn eisoes i'r llinell sylfaen yn y flwyddyn ariannol 2024-25 yn ymwneud â chyflogau a codiadau pensiwn. Ar £11.9 biliwn, mae MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025-26 yn cyfrif am fwy na 55 y cant o wariant cyffredinol Llywodraeth Cymru ar adnoddau.⁴¹

55. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi ei flaenoriaethau cyllidebol fel a ganlyn:

"The priority for the budget for next year is to make sure that we can put the service in all its facets on a sustainable footing, recognising the increasing demands on the budget and the inflationary impact on the costs of the national health service more generally. A significant element of the new funding is in relation to pay and pensions for the workforce, and that obviously enables the service itself, in general terms, to be more sustainable, but clearly supports children's health in a wide range of other ways as well."⁴²

56. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi tynnu sylw at gyfres o ddyraniadau penodol ym MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025-26, gan gynnwys:

- £20 miliwn tuag at y gyllideb addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG.
- £3 miliwn tuag at wella gofal iechyd i fenywod.

⁴⁰ Ond mae'r rhan fwyaf o'r gwariant ar ofal cymdeithasol yn cael ei ddyrannu drwy'r MEG Tai a Llywodraeth Leol.

⁴¹ Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair', Rhagfyr 2024, tudalennau 18-19

⁴² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 4

- Clustnodi tuag £820 miliwn i'r gyllideb iechyd meddwl.
- £20 miliwn ychwanegol i gefnogi'r Cynnig Gofal Plant, a fydd yn bennaf yn darparu cynnydd yn y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr.
- Cymorth i ofal cymdeithasol drwy gynnydd o £253 miliwn i'r setliad llywodraeth leol a thrwy'r portffolio iechyd a gofal cymdeithasol, drwy gyfres o gronfeydd a grantiau, gan gynnwys mwy na £140 miliwn o gyllid wedi'i gyfarwyddo.⁴³

Amseroedd aros

57. Mae papur ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn egluro bod blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd plant, fel y'u cefnogir gan y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, yn canolbwyntio ar leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd plant, gan gynnwys gwasanaethau hanfodol megis asesiadau iechyd meddwl ac asesiadau niwrowahaniaeth. Mae'r papur yn amlygu data sy'n dangos cynnydd o ran lleihau amseroedd aros ar gyfer rhai mathau o ofal pediatrig wedi'i gynllunio, diagnosteg, a therapiau.⁴⁴

58. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau amseroedd aros pediatrig, yn enwedig ym maes diagnosteg a gwasanaethau arbenigol, a sut y mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn mynd i'r afael ag effaith hirdymor oedi gyda thriniaeth i blant ar eu datblygiad. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod amseroedd aros pediatreg wedi lleihau'n gyflymach nag unrhyw garfan arall dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Esboniodd fod gan Lywodraeth Cymru drefniant monitro penodol iawn gyda byrddau iechyd i oruchwylio eu cynnydd ar gwtogi amseroedd aros.⁴⁵

59. Fe wnaethom bwysu ar Ysgrifennydd y Cabinet am ragor o eglurder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur canlyniadau: yn benodol, i ba raddau y mae newidiadau mewn amseroedd aros yn gwneud gwahaniaeth i iechyd hirdymor plant. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu rhagor o wybodaeth am y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu monitro a rhoi'r

⁴³ Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair', Rhagfyr 2024, tudalennau 18-20

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalennau 26-28

⁴⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 44-46

wybodaeth ddiweddaraf inni am ddatblygiadau ar ddatganiad ansawdd arfaethedig y GIG (fel y trafodir ym mharagraff 28).⁴⁶

60. Holwyd Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch heriau'n ymwneud â'r gweithlu, a sut y mae'n disgwyl i'r Gyllideb Ddrafft gefnogi Llywodraeth Cymru i recriwtio staff newydd ac i ddatblygu a hyfforddi staff presennol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bu cynnydd mawr ar lefel meddygon ymgynghorol yn y maes pediatreg, a bod nifer y lleoedd hyfforddi wedi cynyddu'n gyson dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf. Ychwanegodd nad oedd yn disgwyl y byddai swyddi'n cael eu disodli gyda swyddi union debyg yn y dyfodol oherwydd technoleg a chyfleoedd eraill. Cyfeiriodd at adolygiad o'r gweithlu pediatrig y mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ei gynnal ar hyn o bryd, gan ymrwymo i'w rannu â ni pan fydd ar gael.⁴⁷

Iechyd corfforol

Gwaith atal ac ymyrraeth gynnar

61. Noda Llywodraeth Cymru fod ei Chyllideb Ddrafft yn blaenoriaethu gwaith atal ac ymyrraeth gynnar drwy gymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu, yn enwedig yn ystod 1,000 o ddiwrnodau cyntaf bywyd plentyn, er mwyn fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd meddwl a chorfforol hirdymor.⁴⁸

62. Ceir cynnydd o £2 filiwn yn y cyllid ar gyfer rhaglenni brechu yn y Gyllideb Ddrafft. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol am ragor o wybodaeth am sut y caiff y cyllid hwnnw ei ddyrannu, a'r grwpiau targed ar gyfer y mentrau.

63. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y cyllid o £2 filiwn yn talu am gostau amrywiol sy'n ymwneud â rhaglenni brechu, gan gynnwys cyflwyno'r brechiad feirws syncytiol anadlol (RSV) i fabanod newyddanedig yn ddiweddar. Nod y cyllid yw cefnogi brechlynnau newydd a newidiadau i'r amserlen frechu, gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at adroddiad blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar frechu, a mynegodd bryder am yr anghydraddoldebau sydd wrth wraidd y niferoedd is sy'n cael eu brechu mewn cymunedau mwy difreintiedig. Dywedodd wrthym ei fod yn gobeithio y gall newidiadau i'r amserlen frechu ar gyfer y flwyddyn nesaf

⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 48-51

⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 53-56

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalen 4

ddod o hyd i ffyrdd o geisio cau'r bwlch hwnnw i ryw raddau. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael y gorchwyl o feddwl am ffyrdd newydd o gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y rhaglen, ac y byddai angen ystyried heriau ymddygiadol a systematig.⁴⁹

64. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, mae Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru yn dadlau:

"The lack of comprehensive data on child health in Wales means we do not have a full picture of the stresses in the system, and this limits our ability to plan strategically for future staffing needs. Investment in improving data quality and in the digitalisation of child health records and the technology to support this should therefore be prioritised."⁵⁰

Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol pa ran o Gyllideb Ddrafft 2025-26 sy'n cael ei dyrannu i ddatblygu technolegau, cyfleusterau ac ymchwil pediatrig i sicrhau gofal ataliol o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc, yng ngoleuni'r pryderon hyn.

65. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod buddsoddiadau digidol wedi bod yn heriol yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd dyraniadau cyllid cyfalaf cyfyngedig. Eglurodd y byddai mwy o gyllid cyfalaf ar gael ar gyfer 2025-26. Tynnodd sylw at yr adnodd data cenedlaethol, a fyddai'n cefnogi gwasanaethau pediatrig, a chofnod gofal nyrsio Cymru, sy'n datblygu modiwl penodol ar gyfer ffurflenni i gleifion pediatreg. Ychwanegodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant fod arfer gorau ym maes gwelliannau digidol hefyd yn i'w gweld y tu allan i Lywodraeth Cymru, a bod enghreifftiau rhagorol yn cynnwys prosiect rhannu data gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd a'r Fro.⁵¹

Atal gordewdra

66. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, codwyd pryder gennym fod bron i un o bob tri phlentyn yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol gynradd. Fe wnaethom argymhell bod cynllun cyflawni Pwysau Iach, Cymru Iach nesaf Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffocws

⁴⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 71-74

⁵⁰ Ymgynghoriad ysgrifenedig, WGDB-25-26619 Coleg Brenhinol y Pediatryddion ac Iechyd Plant Cymru

⁵¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 58-66

cliriach ar atal gordewdra ymhlith plant, gan gynnwys camau gweithredu a chostau cysylltiedig wedi'u targedu at deuluoedd a'r blynyddoedd cynnar.⁵² Yn ddiweddarach yng ngwanwyn 2024, lansiodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ymchwiliad i ystyried "Effeithiolrwydd strategaeth, rheoliadau, a chamau gweithredu cysylltiedig Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru,". Mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.⁵³

67. Yn 2025-26, nododd Llywodraeth Cymru y bydd yn:

"... parhau i fuddsoddi yn ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra, gyda £4.042m yn cael ei ddyrannu i gefnogi rhaglenni a gweithgareddau, fel ein tri chynllun peilot Plant a Theuluoedd, a gwaith dull system gyfan ar draws ardaloedd yr holl fyrddau iechyd."

Ychwanega fod cynlluniau peilot Plant a Theuluoedd (gyda'r brand PIPYN) yn cael eu sefydlu yng Nghaerdydd, Merthyr ac Ynys Môn, sy'n cynnwys "ymyriad nyth" sy'n darparu cymorth un-i-un i deuluoedd â phlant rhwng tair a saith oed sy'n byw gyda gordewdra.⁵⁴

68. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol faint o gyllid sydd wedi'i ddyrannu yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, a pha fesurau penodol sy'n cael eu rhoi ar waith o dan y fframwaith gwerthuso a addawyd i greu cymunedau iachach a lleihau'r galw am wasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol.

69. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod tua 27% o blant pump oed yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew, rhywbeth a ddisgrifiodd fel 'dychrynlyd'. Nododd, yn rhyngwladol, nad oes unrhyw wlad yn y byd sydd wedi gallu gwrthdroi'r twf mewn gordewdra:

"So, the position is very stark, but the conclusion that I've drawn from that with the team is that where that leads you is that the most urgent work actually needs to be in childhood obesity, because actually that's where you do see international success,

⁵² Senedd Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25](#)', Chwefror 2024, tudalennau 25-26

⁵³ Senedd Cymru, '[Atal Iechyd Gwael: Gordewdra](#)', 7 Mawrth 2024

⁵⁴ Llywodraeth Cymru, '[Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26](#)', Rhagfyr 2024, tudalennau 29-30

and we also see that can change the behaviour of parents as well, indirectly.”

Esboniodd, er nad yw'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y rhaglen pwysau iach wedi newid, bydd cyfran fwy yn cael ei dyrannu i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, gan adlewyrchu newid mewn ffocws, y gallwn ddisgwyl ei weld yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun wedi'i ddiweddarau, sydd i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2025. Pwysleisiodd nad yw mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant yn ymwneud â chyllid yn unig a bod angen dull trawslywodraethol, sy'n cynnwys gweithredu mewn meysydd fel addysg (fel y polisi cyffredinol ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd), hysbysebu, cynllunio, a theithio llesol.⁵⁵

70. Tynnodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sylw at y cysylltiad rhwng diodydd egni a gordewdra ac iechyd meddwl. Ymrwymodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwnnw.⁵⁶

Iechyd meddwl

71. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i neilltuo £820 miliwn (wedi'i gywiro wedi hynny i £830 miliwn⁵⁷) o gyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG yn 2025-26. Mae hefyd yn tynnu sylw at fuddsoddiadau iechyd meddwl parhaus sydd wedi'u cynllunio, megis gwasanaeth 111 pwysu 2, a buddsoddiad blynyddol o £2.2 miliwn yng Ngweithrediaeth y GIG ar gyfer y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl sydd â'r nod o ddarparu adnodd pwrpasol i GIG Cymru i ysgogi gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch. Mae Llywodraeth Cymru yn esbonio bod y buddsoddiad hwn yn "rhan o'n rhaglen waith sylweddol i wella iechyd meddwl a llesiant, er enghraifft drwy ein Dull Ysgol Gyfan, NEST/NYTH a'n Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol." Maent yn amlygu Dechrau'n Deg a rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n rhan o'r Grant Plant a Chymunedau, ac sy'n "helpu i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant; meithrin eu gwytnwch a'u hyder; a sicrhau lles cadarnhaol". Y dyraniad grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2025-26 yw £179.6 miliwn.⁵⁸

⁵⁵ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion](#), paragraffau 77-87

⁵⁶ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion](#), paragraffau 90-92

⁵⁷ Yr wythnos ar ôl i ni gymryd tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, eglurodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bod y cyllid terfynol a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl yn "sail" o £830. Gweler: [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion](#), paragraff 320

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, '[Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26](#)', Rhagfyr 2024, tudalen 30

72. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sut y mae'r £820 miliwn sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn benodol, a pha fetrigau fydd yn olrhain cynnydd o ran lleihau amseroedd aros, gwella ansawdd gwasanaethau, ac ehangu mynediad.

73. Amlinellodd y Gweinidog gyflawniadau diweddar Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd meddwl, gan gynnwys:

- gostyngiad yn amseroedd aros gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed;
- adolygiad uned gyflawni o CAMHS. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach fod 93% o asesiadau CAMHS yn cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod, o gymharu â tharged o 80 y cant; a
- cyflwyno'r gwasanaeth '111 pwysu 2' ar gyfer iechyd meddwl (er i'r Gweinidog ychwanegu yr hoffai weld cynnydd yng nghyfran y galwadau gan rai dan 18 oed; ar hyn o bryd dim ond 5 y cant o'r holl alwadau y maent yn cyfrif amdanynt).

Ychwanegodd y bydd dwy strategaeth iechyd meddwl pob oed yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, eglurodd y byddai'r £820 miliwn yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd ei wario, yn hytrach na'i glustnodi ar gyfer ymyriadau penodol gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru nad oedd cyllid ar gyfer CAMHS wedi'i glustnodi o fewn y dyraniad ehangach sydd wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd meddwl yn ei gyfanrwydd.⁵⁹

74. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sut y bydd y £2.2 miliwn a ddyrannwyd i Raglen Strategol Gweithrediaeth y GIG ar gyfer Iechyd Meddwl yn cael ei dargedu i wella gwasanaethau i blant, yn enwedig mewn meysydd fel gwasanaethau anhwylderau bwyta, ac am wybodaeth am effeithiolrwydd y buddsoddiad hwnnw. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn meddwl bod llawer o'r gwaith ar ddarpariaeth anhwylderau bwyta yn canolbwyntio ar atal, er ei bod yn cydnabod na all Llywodraeth Cymru gyfarwyddo byrddau iechyd i wneud hynny. Ychwanegodd fod Llywodraeth

⁵⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 108-110, 124-125 a 129-130

Cymru hefyd yn rhoi cyllid i Beat, sy'n rhedeg y llinell gymorth genedlaethol. Aeth ymlaen i ddweud:

*"I think that many people in the mental health space will tell you that they always felt that eating disorder service provision and funding was the poor relation in that space, and that's just not the case any more. I hear that from across the system."*⁶⁰

Gwasanaethau niwroddatblygiadol

75. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod £11.5 miliwn ar gael rhwng 2022 a 2025 ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol, a oedd yn cynnwys cymorth i'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol sy'n darparu cyngor a chymorth i deuluoedd a gofawyr. Yn 2022, rhyddhawyd £12 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer rhaglen gwella niwrowahaniaeth "i fynd i'r afael â'r bregusrwydd critigol mewn gwasanaethau Niwroddatblygiadol gan fod y galw'n llawer mwy na'r capasiti i ymateb". Dywed Llywodraeth Cymru fod y rhaglen yn gwneud "cynnydd da o ran cefnogi arloesi a gwella gwasanaethau". Dyrannwyd £3 miliwn arall i fyrddau iechyd yn 2024-25 i leihau'r amseroedd aros hiraf ar gyfer gwasanaethau niwrowahanol i blant, y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd yn darparu hyd at 2,000 o asesiadau ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2025.⁶¹

76. O fis Medi 2024, roedd 20,770 o blant ar restrau aros ar gyfer y rhaglen gwella gwasanaethau niwrowahaniaeth. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant pa gynlluniau pendant sydd ar waith i sicrhau cynaliadwyedd a gwytnwch gwasanaethau niwroddatblygiadol ar ôl 2025.

77. Dywedodd y Gweinidog wrthym, heb ymyrraeth bellach, y gallai rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol gyrraedd 61,000 erbyn mis Mawrth 2027. Esboniodd fod £3 miliwn o gyllid untro wedi'i neilltuo i helpu byrddau iechyd i leihau'r rhestrau aros presennol. Gofynnwyd i fyrddau iechyd gyflwyno cynlluniau yn nodi'r tebygolrwydd y byddant yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Dywedodd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru o Lywodraeth Cymru wrthym bod y llywodraeth yn ffyddiog y bydd y byrddau iechyd yn cyflawni'r 2,000 o asesiadau ychwanegol arfaethedig ar yr amseroedd aros hiraf erbyn diwedd mis Mawrth 2025.⁶²

⁶⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 118-120

⁶¹ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalennau 33-34

⁶² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 96-104

78. Aeth y Gweinidog ymlaen i drafod gwaith pellach i fynd i'r afael ag amseroedd aros am wasanaethau niwroddatblygiadol:

“But, at the same time, we have done a national accelerated design event, which was really good. It was over a couple of days. It brought together stakeholders, health boards, everybody who has a part to play in this, because we all recognise that this cannot continue and we have to change.”

Ymrwymodd i rannu canlyniadau'r trafodaethau hynny â ni.⁶³

79. Fe wnaethom i'r Gweinidog pa gymorth sydd ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd ar ôl iddynt gael diagnosis o niwrowahaniaeth. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod llawer o'r cymorth hwnnw'n dod drwy leoliadau addysg, gyda chymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r trydydd sector. Ychwanegodd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru o Lywodraeth Cymru:

“What this is about is really looking at what are the models, what are the type of services that we need across all of Wales, earlier, that give confidence to parents and families in relation to their children. That's where we're hoping, then, to analyse that report from the information this January and then to take plans forward.”⁶⁴

Gofal cymdeithasol

80. Daw'r rhan fwyaf o'r gwariant cyhoeddus ar ofal cymdeithasol plant, diogelu a chymorth i blant sydd â phrofiad o ofal o'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n rhan o'r MEG Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y canlyniadau i'r grŵp hwn o blant.

81. Amlinellodd Llywodraeth Cymru fod y MEG Tai a Llywodraeth Leol yn cael cynnydd o £253 miliwn “er mwyn hybu mynediad at ofal cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol.”⁶⁵ Fe wnaethom ofyn sut yr hoffai Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol wario'r cyllid ychwanegol hwn, o ystyried nad oes unrhyw sicrwydd y bydd yn cael ei ddyrannu gan awdurdodau lleol i gefnogi gofal cymdeithasol plant.

⁶³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

⁶⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 133-135

⁶⁵ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalen 4

82. Eglurodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mai cyfrifoldeb statudol awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant o fewn y fframwaith a nodir gan ddeddfwriaeth. Nododd fod gan Lywodraeth Cymru raglen drawsnewid sylweddol ar gyfer gwasanaethau plant, ac amcanion clir i awdurdodau lleol gwrdd â nodau polisi Llywodraeth Cymru. Fe orffennodd drwy nodi bod y gyllideb yn cael ei phennu gan lywodraeth leol, ond mai gan Lywodraeth Cymru y daw'r cyfeiriad polisi, a'i bod yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y rhaglen bolisi honno'n cael ei chyflawni.⁶⁶

83. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cododd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol bryderon ynghylch cyllid grant ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru:

“Both the National Adoption Service (NAS) and Foster Wales (FW) are in receipt of Welsh Government grant funding, with both services receiving a ‘core’ funding allocation... However, both services are fast approaching the end of the current 3-year period for which much of the funding from Welsh Government is available. The lack of assurance that it will continue is a significant risk to the improvements achieved and has the potential, over the current year, to lead to large numbers of staff in local authorities across Wales and in the VAA (for NAS) having their employment placed at risk.”⁶⁷

Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol pa sicrwydd y gallai ei roi ynghylch cyllid grant tymor hwy ar gyfer gwaith penodol a wneir gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru yng ngoleuni'r pryderon hyn.

84. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i gefnogi gwasanaethau maethu mewn awdurdodau lleol. Ychwanegodd eu bod yn rhan annatod o'n rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant. Dywedodd wrthym fod pryderon ADSS a CLILC yn ymwneud â chyllid ychwanegol a ddarparwyd fel rhan o raglen â chyfyngiad amser a oedd yn canolbwyntio ar foderneiddio'r agenda fabwysiadu yng Nghymru. Roedd y cyllid hwn yn

⁶⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 28-31

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB25-26671, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

ychwanegol at y cyllid craidd a ddarparwyd i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru, sy'n gyllid a fydd yn parhau yn y dyfodol.⁶⁸

85. Mae elusennau wedi codi pryder gyda ni drwy gydol y Senedd hon ynghylch yr heriau y maent yn eu hwynebu oherwydd cytundebau cyllido tymor byr a'u goblygiadau i ddarparu gwasanaethau.⁶⁹ Codwyd y pryderon hyn yng nghydestun baich Yswiriant Gwladol cynyddol i rai elusennau, fel y trafodir ym mharagraff 37. Mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, cyflwynodd grŵp o elusennau plant cenedlaethol bapur yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

“Ensure the future of the Sustainable Social Services Third Sector grant through making it a part of core funding to provide a long-term funding commitment to critical third sector led projects and initiatives which support, safeguard and empower the lives and voices of babies, children and young people throughout Wales.”⁷⁰

86. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at ddyraniadau Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy o bron i £3 miliwn yn 2025-26 ar gyfer grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a £9.7 miliwn yn y Gronfa Newid Plant sy'n Derbyngofal.⁷¹ Fodd bynnag, ymrwymadau blwyddyn yw'r rhain, yn hytrach na'r ymrwymadau ariannu tymor hwy y mae'r elusennau yn awyddus i'w gweld. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol pa sicrwydd y gall ei roi i'r sector gwirfoddol er mwyn mynd i'r afael â'u pryderon hirdymor ynghylch ansefydlogrwydd ariannol a natur tymor byr y cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd.

87. Cydnabu'r Gweinidog ein pryderon, ond ychwanegodd fod nifer sylweddol o grantiau'n cael eu dyrannu ar sail tair blynedd, yn enwedig drwy'r grant gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi teimlo'n rhwystredig o weld pocedi o arfer da nad oeddent yn cael eu cyflwyno ledled y wlad, sydd wedi gwneud iddi ystyried sut i newid y ffordd y caiff

⁶⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 170-171

⁶⁹ Yn fwyaf diweddar, gweler: Senedd Cymru, 'Plant sydd ar yr ymylon', Rhagfyr 2024, tudalennau 90-92

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, WCDB25-26(6)48: Elusennau cenedlaethol plant (Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home Start Cymru, Cymdeithas y Plant, Gwasanaeth Eirioli Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) Cymru, TGP Cymru ac Gweithredu dros Blant Cymru

⁷¹ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalennau 23-25

y grant ei ddarparu yn y dyfodol. Ymrwymodd i greu proses grantiau symlach a fydd yn dod i rym o 2026 ymlaen, a phwysleisiodd na ellid cael loteriau cod post ar gyfer pocedi o ragoriaeth. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod setliadau tymor hwy yn heriol pan fydd cyllidebau'n cael eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth y DU.⁷²

Gofal plant

Dechrau'n Deg a chynnig gofal plant Cymru

88. Ar hyn o bryd, mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar am 48 wythnos y flwyddyn i rieni plant 3-4 oed sy'n gweithio a'r rhai sydd wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach neu addysg uwch sydd o leiaf 10 wythnos o hyd. Mewn cynllun ar wahân, gall rhieni plant 2-3 oed sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg gael 2.5 awr o ofal plant y dydd am 5 diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor (39 wythnos y flwyddyn).

89. Deilliodd gofal plant Dechrau'n Deg o Gytundeb Cydweithio 2021 gyda Phlaid Cymru, gyda Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i "Ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg."⁷³ Daeth Plaid Cymru â'r Cytundeb Cydweithio i ben ym mis Mai 2024. Fodd bynnag, mae naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i anrhydeddu'r rhwymedigaethau parhaus i gyllido'r ymrwymadau o fewn y cytundeb.⁷⁴

90. Mae gofal plant Dechrau'n Deg bellach wedi cyrraedd yr hyn y cyfeirir ato fel 'Cam 2' o'r broses gyflwyno. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r broses o gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg yn llawn i bob plentyn 2 oed ('Cam 3') wedi'i ariannu'n llawn o fewn y Gyllideb Ddrafft. Ar 11 Rhagfyr 2024, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg gyfweiliad ar y radio, a gafodd sylw mewn erthygl ddilynol gan y BBC, a oedd yn crynhoi ei farn ynghylch a oedd gofal plant Dechrau'n Deg Cam 3:

"...he [the Cabinet Secretary for Finance and the Welsh Language] wanted to see phase three [of the expansion of

⁷² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 186-193

⁷³ Llywodraeth Cymru, 'Y Cytundeb Cydweithio', 22 Tachwedd 2021, tudalen 3

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair', Rhagfyr 2024, tudalen 3

Flying Start childcare] happen, which would see more two year olds benefit.

'Plans are coming in from local authorities. If I can find a way between draft and final to find a bit more to help that to happen, I'd be very pleased to do that ' he said.' "⁷⁵

91. Mae Sefydliad Bevan wedi amcangyfrif, heb yr ehangu hwn, y gallai 40% o blant dwy oed gael eu gadael heb ddarpariaeth gofal plant ym mis Mawrth 2025.⁷⁶ Yn y cyfamser, ysgrifennodd Oxfam Cymru atom, gan ddweud nad oes amserlen glir nac ymrwymiad ariannol digonol o hyd ar gyfer ehangu rhaglenni cymorth gofal plant yng Nghymru.⁷⁷ Yn y cyfamser, mewn sesiwn friffio ddiweddar, croesawodd y Women's Budget Group a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod y cynnydd yn y gyfradd fesul awr, ond fe'i galwyd yn blastr dros glwyf yng nghyd-destun toriadau blaenorol. Mynegwyd pryder ynghylch y cyllid ar gyfer cyflwyno cam 3 gofal plant Dechrau'n Deg, a dywedwyd wrthym fod gostyngiad mewn termau real o 2.3 y cant yn y Grant Plant a Chymunedau, sy'n ariannu Dechrau'n Deg, yn y Gyllideb Ddrafft eleni.⁷⁸

92. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu'r gwaith o gyflwyno Gofal Plant Dechrau'n Deg ledled Cymru i bob plentyn dwy oed.

93. Dywedodd y Gweinidog wrthym yn ddiamwys ei fod yn dal yn un o ymrwymadau'r rhaglen lywodraethu. Dywedodd ei fod rhan o'r cytundeb cydweithio a bod y Llywodraeth yn dal i fod yn ymrwymedig i hynny. Esboniodd fod arian yn y system o hyd i ehangu'r rhaglen gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed. Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn y sesiwn ychwanegodd:

"Our objective absolutely is that every two-year-old in Wales will be able to access a Flying Start setting in phase 3 of the roll-out ... there will be financial challenges within all of that, and we can only ensure that we deliver when we know that we've actually got a budget to deliver it. But we are planning for it,

⁷⁵ BBC, '[Council cuts and bankruptcy fears despite cash boost](#)', 11 Rhagfyr 2024

⁷⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig: WGDB25-26\(6\)51: Sefydliad Bevan](#)

⁷⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig: WGDB25-26639: Oxfam Cymru](#)

⁷⁸ The Wales Women's Budget Group a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, '[Briff: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26](#)', Ionawr 2025 2024

and the local authorities are in the process of preparing for that eventuality.”⁷⁹

Cefnogi darparwyr gofal plant

94. Mewn ymdrechion i gefnogi darparwyr plant, ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol y byddai'r polisi o ddarparu rhyddhad ardrethi annomestig llawn i ddarparwyr gofal plant – sydd ar waith dros dro ers 2019 – yn cael ei wneud yn bolisi parhaol.⁸⁰ Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i:

- gynyddu'r gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr gofal plant o £5 i £6 o 7 Ebrill 2025 ymlaen;
- adolygu'r gyfradd yn flynyddol, yn hytrach na phob tair blynedd;
- darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o barhau i alinio Addysg Feithrin a gofal plant Dechrau'n Deg;
- cynyddu'r gyfradd ddyddiol ar gyfer bwyd o £9.00 i £10.80 o fis Ebrill 2025.⁸¹

Mae £20 miliwn o arian ychwanegol wedi'i ddyrannu yn y Cyllideb Ddrafft i dalu costau'r polisiau hyn.⁸²

95. Croesawyd y gyfradd fesul awr uwchraddedig a'r rhyddhad ardrethi gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Blynyddoedd Cynnar Cymru. Fodd bynnag, dadleuwyd nad yw'r mesurau hyn yn ddigon i dalu costau meithrinfeydd. Pwysleisiodd y Feithrinfa Ddydd Genedlaethol fod y costau i ddarparwyr gofal yn cod i'r entrychion, a galwodd am ad-dalu'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol i feithrinfeydd.⁸³ Yn y cyfamser, beirniadodd Blynyddoedd Cynnar Cymru yr hyn y mae'n ei weld fel “oedi cyn mynd i'r afael ag

⁷⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 156-165

⁸⁰ Llywodraeth Cymru, 'Hwb enfawr i'r sector gofal plant yng Nghymru wrth i ryddhad ardrethi busnesau bach gael ei wneud yn parhaol', 12 Tachwedd 2024

⁸¹ Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o gyfradd Cynnig Gofal Plant Cymru fesul awr a'r cymorth sy'n parhau ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg', 11 Rhagfyr 2024

⁸² Llywodraeth Cymru, 'Cyllideb Ddrafft 2025-26: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair', Rhagfyr 2024, tudalen 20

⁸³ Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, 'Wales funding rates revealed but 20% increase will not cover all costs', 11 Rhagfyr 2024

anghenion y sector” gan ddweud bod cyfyngiadau cynnig Llywodraeth Cymru yn “peri pryder”.⁸⁴

96. Eglurodd y Gweinidog wrthym fod yr £20 miliwn o gyllid ychwanegol yn cynnwys codi'r gyfradd fesul awr o £5 i £6. Dywedodd wrthym fod nifer o leoliadau wedi dweud na fyddent yn gallu parhau heb gynnydd yn y gyfradd fesul awr. Aeth ymlaen i ddweud:

*“... what we have done is we've uprated the hourly rate and we've had to put that into the system to protect the system The hourly rate in Wales for childcare settings was £5 an hour; we've uprated that by 20 per cent to £6 an hour, so that it's now on par with a vast majority and actually better than a vast majority of childcare settings in England, in fact. So, it was not about expanding the childcare offer, it was about sustaining it ...”*⁸⁵

Gofal plant i blant anabl

97. Ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad 'A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'. Prif gasgliad yr adroddiad oedd bod nifer sylweddol o hawliau plant a phobl ifanc i addysg yn cael eu torri yng Nghymru ar hyn o bryd.⁸⁶ Un o'n hargymhellion oedd y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall symleiddio'r amrywiol ffrydiau cyllido sydd ar gael i ddarparwyr gofal plant er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ddarparwyr gofal plant wybod pa gymorth y gallant ei gael a'r ffordd orau o gael gafael ar y cymorth hwnnw.⁸⁷ Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ym mha ffordd, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dyraniadau yn y Cyllideb Ddrafft hon i fynd i'r afael â'n hystod eang o bryderon ynghylch gofal plant.

98. Cydnabu'r Gweinidog fod sicrhau lleoedd gofal plant i blant ag anabledau yn her. Amlinellodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio'n agos iawn ag awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am asesu digonolrwydd lleoliadau gofal plant, ac

⁸⁴ Blynnyddoedd Cynnar Cymru, 'Dechrau da!.. Sylwad ar y Gyfradd Cynnig Gofal Plant newydd i Gymru.'

⁸⁵ Llywodraeth Cymru, 'Cais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth: Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y Cyllideb Ddrafft 2025-26', Rhagfyr 2024, tudalennau 140-144

⁸⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 156

⁸⁷ Llywodraeth Cymru, 'A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'. Gorffennaf 2024, tudalen 61

ariannu'r lleoedd sydd eu hangen arnynt drwy gyllid llywodraeth leol drwy'r grant cymorth ardrethi.⁸⁸

Ein barn ni

Atal gordewdra

99. Rydym yn rhannu pryder Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch cyfran y plant sydd dros bwysau neu'n ordew yng Nghymru. Gwyddom o waith yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau ein hunain fod gordewdra ymhlith plant yn broblem gynyddol sy'n effeithio'n anghymesur ar blant yn ein cymunedau lleiaf cefnog. Rydym yn cytuno bod canolbwyntio ar ymyriadau sydd wedi'u targedu at blant yn hollbwysig i leihau gordewdra ymhlith plant ac oedolion hefyd. Felly, rydym yn croesawu cadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet fod y gyllideb ar gyfer y rhaglen Pwysau Iach: Cymru Iach wedi cael ei chynnal ac y bydd y ffordd y caiff ei gwario yn cael ei hailgydbwysio. Edrychwn ymlaen at weld sut y bydd y newid hwn yn y dyraniad yn gwella ymdrechion i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant.

100. Serch hynny, dylai penderfyniadau i flaenoriaethu cyllid fel hyn – ni waeth pa mor synhwyrol y maent yn ymddangos – gael eu cefnogi gan dystiolaeth glir a chadarn. Rydym yn gwerthfawrogi pwynt Ysgrifennydd y Cabinet fod gordewdra ymhlith plant yn her fyd-eang, ac yn un nad oes llawer iawn o lywodraethau wedi gallu ei goresgyn yn llwyddiannus. Ond dylai'r her fyd-eang hon roi corff cyfoethog o arferion gorau inni eu defnyddio i ddatblygu ein hymyriadau ein hunain. Y cwestiwn sylfaenol yw: ai Pwysau Iach Cymru Iach yw'r fframwaith cywir i fynd i'r afael â gordewdra? Pa dystiolaeth a data sy'n sail i benderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet i ogwyddo cydbwysedd y polisi hwnnw tuag at blant? Sut y bydd yn monitro effaith yr ailalinio hwnnw, a beth fydd yr amserlen? Mae newid ymddygiad yn broses raddol, a bydd effaith gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn cymryd amser i ddod yn glir. Ar y pwynt hollbwysig hwn, rhaid inni fod yn hyderus bod yr ymyriadau polisi sylfaenol cywir ar waith cyn inni fuddsoddi ymhellach ynddynt.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir:

- y dystiolaeth a'r data penodol a ddefnyddiwyd i ddatblygu a gwerthuso'r strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach;

⁸⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 146-147

- y dystiolaeth a'r data penodol sy'n sail i'r penderfyniad i symud tuag at fwy o ffocws ar blant o fewn y strategaeth honno; a
- sut y mae llwyddiant yn cael ei fesur yn y rhaglen Pwysau Iach Cymru Iach ar gyfer plant, gan gynnwys pa ganlyniadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni a phryd.

101. Nodwn fod gwaith manwl Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar atal gordewdra yn mynd rhagddo. Gofynnwn i'r Pwyllgor nodi'r dystiolaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru am ordewdra ymhlith plant a'r casgliadau a nodir uchod, a gofynnwn i'r Pwyllgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ganlyniadau ei waith ei hun lle y bo'n berthnasol.

Gwasanaethau niwroddatblygiadol

102. Cawsom ein taro gan asesiad llym y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y gallai hyd at 61,000 o bobl fod ar restr aros am wasanaethau niwroddatblygiadol erbyn mis Mawrth 2027, oni fydd ymyrraeth bellach. Gwyddom o'n gwaith ar blant ag anabledau ac anghenion dysgu ychwanegol fod llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael cymorth clinigol i'w plant. Ond fe'n syfrdanwyd gan lefelau'r galw a ragwelir yn y dyfodol ar system sydd eisoes yn gweithio uwchlaw ei chapsiti. Rydym yn croesawu geiriau gonest y Gweinidog ynghylch maint yr her sydd o'n blaenau o ran lleihau'r rhestrau aros hynny.

103. Yn y cyd-destun hwn, cawsom ein calonogi o glywed y rhagwelir y bydd byrddau iechyd yn cyflawni'r 2,000 o asesiadau ychwanegol arfaethedig ar yr amseroedd aros hiraf erbyn mis Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae'n amlwg na fydd rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol yn cael eu clirio yn y dyfodol agos. Yn y cyd-destun hwnnw, rhaid inni sicrhau bod cymorth digonol ar gael i helpu plant a'u teuluoedd tra byddant yn aros am asesiad.

104. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog fod gan y system addysg a'r trydydd sector rolau allweddol o ran cefnogi teuluoedd sy'n aros am asesiadau niwroddatblygiadol, neu sydd wedi cael diagnosis ar gyfer eu plentyn. Ond fel y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei hun wedi cydnabod, mae cyrff y GIG yn aml yn ei chael hi'n anodd darparu'r mewnbwn y mae ysgolion yn gofyn amdano i helpu dysgwyr⁸⁹, gan awgrymu nad yw ysgolion bob amser yn gallu bodloni anghenion eu dysgwyr heb gymorth clinigol. Yn y cyfamser, bydd

⁸⁹ Llywodraeth Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg Ymateb i adroddiad interim y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Gorffennaf 2024)', 11 Medi 2024, tudalen 6

presenoldeb sefydliadau'r trydydd sector yn naturiol yn amrywio o ranbarth i ranbarth ac, fel y trafodwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae elusennau yn wynebu pwysau ariannol parhaus a allai beryglu eu gwaith hanfodol gyda theuluoedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i oruchwylio'r cymorth hwnnw er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gydgysylltiedig, ei fod yn diwallu anghenion teuluoedd, a'i fod ar gael ledled Cymru mewn modd amserol.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n glir:

- sut y mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn darparu cyllid i gefnogi teuluoedd sy'n aros am asesiadau niwrowahaniaeth, ac i'w helpu ar ôl iddynt gael diagnosis; a
- sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cymorth hwn yn gyson rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac ar gael i deuluoedd ledled Cymru gyfan.

Gofal plant

105. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Gofal Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol o £20 miliwn i ddarparu cyllid ychwanegol i leoliadau gofal plant drwy'r gyfradd fesul awr uwch, yr esemptiad parhaol i ardrethi nad ydynt yn ardrethi busnes, a'r gyfradd ddyddiol uwch ar gyfer bwyd. Gwyddom fod y sector gofal plant yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, a chytunwn fod sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn gynaliadwy yn y tymor hir yn hollbwysig cyn rhoi mwy o alw ar y sector gofal plant drwy ddarpariaeth Dechrau'n Deg estynedig.

106. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad diamwys y Gweinidog ar ran Llywodraeth Cymru i gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg yn llawn i bob plentyn 2 oed ('cam 3'). Fodd bynnag, rydym yn llai clir ynghylch a oes digon o gyllid i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Ac er i'r Gweinidog ddweud wrthym bod arian yn y system i gyflawni cam 3, dywedodd yn ddiweddarach mai dim ond pan fydd y Llywodraeth yn gwybod bod ganddi'r gyllideb y gall ei gyflawni.

107. Gofynnwn felly i Lywodraeth Cymru egluro argaeledd cyllid ac amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno cam 3 o ofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed, ochr yn ochr ag unrhyw rwystrau i wneud hynny.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen gyfredol ar gyfer cyflwyno cam 3 o ofal plant Dechrau'n Deg yn llawn, gan amlinellu'n glir gostau pob cam o'r broses weithredu, i ba raddau y telir y costau hynny gan Gyllideb Ddrafft 2025-26 neu y rhagwelir y bydd cyllidebau yn y dyfodol yn eu talu, cerrig

milltir allweddol y broses weithredu, ac unrhyw rwystrau i gyflwyno'r cynllun (rhwystrau ariannol neu rwystrau eraill).

4. Addysg

Penawdau

108. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad (gweler paragraff 4), mae graddau'r newidiadau i Gyllideb Ddrafft 2025-26 yn dibynnu ar yr hyn y caiff y gwariant arfaethedig ei gymharu ag ef. Ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), sy'n cael ei arwain gan alw ac y mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth gyfyngedig drosto, mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG) yn cynnwys:

- £1.8 biliwn o gyllid refeniw (£2.1 biliwn gan gynnwys dyraniadau heb fod yn arian parod). Mae hyn yn gynnydd o £83.6 miliwn (4.9 y cant) o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig neu £102 miliwn o gymharu â Chyllideb Derfynol 2024-25 pan gaiff adnoddau nad ydynt yn adnoddau cyllidol (cyllid benthyciadau myfyrwyr yn bennaf⁹⁰) eu hanwybyddu; a
- £373 miliwn o gyllid cyfalaf. Mae hyn yn gynnydd o £28 miliwn o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, neu £24 miliwn o gymharu â Chyllideb Derfynol 2024-24.

109. O'r cyfanswm o tua £2.1 biliwn o'r cyllid adnoddau yn y MEG Addysg, mae tua dwy ran o dair ar gyfer addysg ôl-16 a thua thraean ar gyfer addysg cyn-16. Mae papur Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn nodi mai'r blaenoriaethau addysg yw gwella cyrhaeddiad er mwyn codi safonau mewn ysgolion a cholegau a chynyddu presenoldeb fel ffordd o wella cyrhaeddiad pob plentyn a pherson ifanc. Ychwanega Ysgrifennydd y Cabinet bod diwygio'r cwricwlwm ac ADY "yn parhau'n ganolog i hyn". Mae gwariant a dargedir yn cynnwys:

- £7 miliwn i gefnogi presenoldeb mewn ysgolion er mwyn galluogi pecyn o ymyriadau y bwriedir iddynt fynd i'r afael â dadrithiad, ymgysylltu â theuluoedd a helpu dysgwyr i fynychu addysg.
- £10 miliwn i gefnogi dysgu a chyrhaeddiad yn y meysydd llythrennedd a rhifedd.

⁹⁰ Mae £261 miliwn o'r adnodd Addysg gwerth £2.067 biliwn yn ymwneud â'r gost gysylltiedig o ddarparu benthyciadau myfyrwyr – dileu benthyciadau na ellir eu hadennill a'r llog a ragwelwyd y gellid ei ennill fel arall o fenthyca'n fasnachol. Mae nifer o BEL eraill ar gyfer adnoddau heb fod yn arian parod sy'n werth cyfanswm o £6.5 miliwn. Mae'r symiau hyn yn symiau nad ydynt yn arian parod ac nid yw'n arian y gellir ei ddefnyddio at ddibenion eraill.

- £14.3 miliwn i helpu i ariannu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- £7.8 miliwn ar gyfer safonau ysgol er mwyn helpu i gadw staff addysgu ac aelodau eraill o staff ysgolion drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.
- £31.6 miliwn ar gyfer addysg drydyddol.
- £1.6 miliwn ar gyfer rhaglen genedlaethol Hwb i sicrhau bod adnoddau a gwasanaethau digidol ar gael i bob dysgwr ac ymarferydd mewn ysgolion a gynhelir.
- £28 miliwn o gyfalaf ar gyfer yr ystâd addysgol.⁹¹

110. Fodd bynnag, mae cyllid craidd ar gyfer ysgolion wedi'i gynnwys yng nghyllideb llywodraeth leol (y MEG Tai a Llywodraeth Leol), yn hytrach na'r gyllideb addysg. Mae hyn oherwydd bod cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion yn cael ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo o fewn y Setliad Llywodraeth Leol. I roi hyn yn ei gyd-destun, o'r £3.6 biliwn a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yn y flwyddyn gyfredol (2024-25)⁹², daw tua £3.3 biliwn oddi wrth awdurdodau lleol⁹³. (Gweler paragraff 19 am oblygiadau hyn i dryloywder gwariant Llywodraeth Cymru ar blant.)

111. Daw cyllid craidd ar gyfer y sectorau addysg bellach ac addysg uwch o'r MEG Addysg. Er bod llai o linellau cyllideb ar gyfer addysg ôl-16 nag addysg cyn-16, maent yn cynnwys symiau mawr o arian. Ym mis Awst 2024, daeth Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn weithredol a diddymwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cyfanswm y cyllid refeniw arfaethedig ar gyfer Medr ar draws yr holl MEGs yw £948 miliwn.

112. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sut y cytunwyd ar y dyraniadau terfynol ar gyfer y MEG Addysg. Eglurodd fod Cabinet Llywodraeth Cymru, yn dilyn cyllideb hydref Llywodraeth y DU, wedi ystyried y ffordd orau o

⁹¹ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Cyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalennau 5-6

⁹² Llywodraeth Cymru, 'Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion: Ebrill 2024 i Fawrth 2025', 5 Gorffennaf 2024

⁹³ Wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data o: StatsCymru, 'Gwariant refeniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth (£ mil)' a StatsCymru, 'Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig yn ôl sector (£ mil)'

ddyrrannu'r cyllid refeniw ychwanegol o £695 miliwn i gyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog. Eglurodd ei bod wedi:

"... aligned the education budget to support the priorities for education, which were also my priorities anyway, in terms of improving attainment, especially with literacy and numeracy, improving attendance, which is obviously crucial for better attainment, but also I really wanted as well to try and make sure that we responded to the funding pressures that I've heard about since coming into post from schools and from local authorities."

Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet, o ran y maes addysg drydyddol, ei bod hi a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod addysg bellach ac addysg chweched dosbarth yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys cynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach, a datblygu cymorth iechyd meddwl a llesiant.⁹⁴

Cyllid i ysgolion

Cyllid ar gyfer awdurdodau lleol

113. Fel y trafodir uchod, daw mwyafrif helaeth y cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion o'r MEG Tai a Llywodraeth Leol. Mae'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2025-26 yn darparu cynnydd ychwanegol o £253 miliwn (4.3 y cant) i'r holl awdurdodau lleol gyda'i gilydd o gymharu â 2024-25. Y cynnydd mewn cyllid yn 2024-25, 2023-24 a 2022-23 oedd 3.3 y cant, 7.9 y cant a 9.4 y cant yn y drefn honno. Mae gwahanol awdurdodau lleol yn cael codiadau gwahanol yn eu cyllid, yn amrywio o 2.8 y cant yn Sir Fynwy i 5.6 y cant ar gyfer Casnewydd. Mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu ar ba wasanaethau y caiff y cynnydd hwn ei wario.

114. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bod hi a'i chydweithwyr yn y cabinet wedi parhau i flaenoriaethu cyllid llywodraeth leol (lle mae ysgolion, ynghyd â gofal cymdeithasol, yn brif dderbynyddion) "er mwyn diogelu cyllid craidd i ysgolion cymaint â phosibl".⁹⁵ Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y

⁹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 5-8

⁹⁵ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalen 7

Cabinet a yw'n hyderus bod gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau yn 2025-26 i ariannu ysgolion yn ddigonol.

115. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y setliad cynyddol ar gyfer llywodraeth leol yn gydnabyddiaeth o'r pwysau ar ysgolion a gofal cymdeithasol. Dywedodd fod adolygiad o fformiwlâu cyllido ysgolion ledled Cymru wedi'i gwblhau, ac mae'n gobeithio ei gyhoeddi ym mis Chwefror. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddilyn gan ymgynghoriad ar newidiadau polisi ac ymgynghoriad technegol i edrych ar newidiadau rheoleiddio er mwyn gwella tryloywder a chysondeb yn y system.⁹⁶

116. Mae athrawon wedi cael codiad cyflog o 5.5 y cant ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25. Roedd hyn yn uwch na'r cynnydd a argymhellwyd gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (4.3 y cant) oherwydd y cynnydd o 5.5 y cant a ddyfarnwyd yn Lloegr a pholisi Llywodraeth Cymru o 'ddim niwed' mewn perthynas â chyflogau athrawon yng Nghymru.⁹⁷

117. Ym mis Tachwedd 2024, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion gyda'r codiad cyflog hwnnw.⁹⁸ Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26 i'w cefnogi i roi'r dyfarniad cyflog ar waith. Fodd bynnag, mae costau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfarniad cyflog yn awgrymu na fydd y cyllid ychwanegol hwn yn ddigon i'w ariannu'n llawn, fel y dengys ffigur 2 isod.

⁹⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 71-72

⁹⁷ Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad ac argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru', 10 Medi 2024

⁹⁸ Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Dyfarniad Cyflog Athrawon 2024/25', 6 Tachwedd 2024

Ffigur 2. Amcangyfrif o gost dyfarniad cyflog athrawon 2024/25 o'i gymharu â'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i'w ariannu.

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024', 8 Tachwedd 2024, tudalen 6, a Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalennau 17-18

Blwyddyn ariannol	Amcangyfrif o gost dyfarniad cyflog	Cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru	Y gwahaniaeth
2024-25	£56.1 miliwn	£18.2 miliwn (drwy'r ail gyllideb atodol)	- £37.9 miliwn
2025-26	£96.1 miliwn	£31.1 miliwn (£18.2 miliwn wedi'i ailddatgan o 2024-25 ynghyd â £13 miliwn ychwanegol ar gyfer 2025-26)	-£65 miliwn

118. Mae papur CLILC i'r Pwyllgor Cyllid yn dadlau bod awdurdodau lleol yn wynebu £559 miliwn o bwysau ariannol yn 2025-26, a fyddai'n gofyn am gynnydd ariannol o 7 y cant i'w hunioni'n llawn. Mae'n amcangyfrif y bydd £122 miliwn o bwysau mewn ysgolion yn 2025-26, gan ragweld diffygion pellach o £111 miliwn a £112 miliwn yn 2026-27 a 2027-28 yn y drefn honno. Mae'n amcangyfrif bod cyflogau'n cyfrif am 80 y cant o'r pwysau hyn.⁹⁹

119. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a yw Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o gyllid i awdurdodau lleol i dalu costau dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2024/25.

120. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod talu cost cyflogau athrawon yn rhan o'r cyllid craidd a ddarperir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, a bod disgwyl i lywodraeth leol gynllunio eu cyllidebau i gynnwys codiad cyflog 2024 yn nyraniadau eu setliad. Fodd bynnag, eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi efelychu'r penderfyniad a wnaed yn Lloegr i godi cyflog athrawon 5.5 y cant oherwydd yr egwyddor hirsefydlog o ddim niwed yng Nghymru. O ganlyniad, rhoddodd arian ychwanegol i lywodraeth leol i dalu'r costau ychwanegol hynny nas rhagwelwyd.¹⁰⁰

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB25-26(6)73: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

Presenoldeb, cyrhaeddiad a 'haen ganol' gwella ysgolion

121. Mae amcanion addysg allweddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwella presenoldeb a chyrhaeddiad. Mae cyllid ychwanegol yn 2025-26 i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys:

- £7 miliwn i gefnogi presenoldeb mewn ysgolion er mwyn galluogi pecyn o ymyriadau y bwriedir iddynt fynd i'r afael â dadrithiad, ymgysylltu â theuluoedd a helpu dysgwyr i fynychu addysg. Mae hyn yn cynnwys £3 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn cynyddu nifer y Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd;
- £10 miliwn i gefnogi cyrhaeddiad yn y meysydd llythrennedd a rhifedd; ac
- £14.3 miliwn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.¹⁰¹

122. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a oedd hi'n hyderus bod buddsoddiad pellach mewn Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn rhoi gwerth da am arian wrth geisio gwella presenoldeb.

123. Rhybuddiodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd o ran ystyried effeithiolrwydd Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, a nododd fod y rhesymau dros beidio â mynychu'r ysgol yn gymhleth iawn. Fodd bynnag, dywedodd y cafwyd adborth cadarnhaol gan arweinwyr ysgolion am rôl y swyddogion. Aeth ymlaen i ddweud:

"... I've got to say, the work they're doing, I've been really inspired by it. I think it's absolutely brilliant, and it also helps with the workforce challenges, because teachers and school leaders can't do all this work themselves if they're going to be focused on the business of education."¹⁰²

124. Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro Llywodraeth Cymru wrthym fod pryderon ynghylch presenoldeb yn cael eu profi ar draws y byd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â'r OECD a phartneriaid eraill yn rhyngwladol i

¹⁰¹ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Cyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalennau 5-6

¹⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 95-98

sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir yng Nghymru yn cyd-fynd ag arfer gorau rhyngwladol.¹⁰³

125. Yn ystod tystiolaeth lafar, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet mai llythrennedd a rhifedd yw'r conglfeini ar gyfer dysgu. Dywedodd wrthym y byddai £10 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu ar gyfer rhaglenni cymorth cenedlaethol i wella addysgu llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys cymorth gyda ffoneg. Ychwanegodd ei bod yn awyddus i wella'r broses o gasglu data, a'i bod hefyd wedi buddsoddi £1 miliwn ychwanegol yn y BEL Cwricwlwm ac Asesu i sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael.¹⁰⁴

126. Un newid allweddol ers 2024-25 yw bod cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion yn cael ei ddsbarthu i awdurdodau lleol, yn hytrach na'i sianelu drwy gonsortia rhanbarthol. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg beth yw effeithiau'r penderfyniad hwn, a fydd unrhyw gyllid yn y dyfodol ar gael drwy'r consortia, a sut y mae llinellau'r gyllideb yn adlewyrchu'r newidiadau i drefniadau gwella ysgolion y mae'n eu gwneud.

127. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mai awdurdodau lleol sydd wastad wedi bod â'r cyfrifoldeb statudol am wella ysgolion, a bod y consortia wedi dod o dan yr awdurdodau lleol yn hynny o beth. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhaglen bartneriaeth newydd ar gyfer gwella ysgolion yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan yr Athro Dylan Jones.¹⁰⁵ O ganlyniad, ni fyddai'n dosbarthu cyllid drwy gonsortia rhanbarthol yn y dyfodol. Eglurodd y byddai'r rhaglen yn cael ei hategu gan gorff dysgu ac arwain proffesiynol newydd, ac y byddai'n cael ei chefnogi gan dîm gwella ysgolion sydd newydd ei sefydlu.¹⁰⁶

128. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“There was too much going on in the system. There was the white heat of professional learning, as it was described, so we're trying to move now to a more coherent system, where schools are working together to improve education, but supported by

¹⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 22-23

¹⁰⁵ I gael rhagor o wybodaeth gweler: Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Y cam nesaf yn yr adolygiad o wella ysgolion - rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru', 31 Ionawr 2024

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 100

these new structures, the new professional learning body, an enhanced role for local authorities, and the education team in Welsh Government as well.”

Dywedodd wrthym fod y cyn Weinidog Addysg Kirsty Williams yn cadeirio grŵp cydlynu cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod yr hanfodion yn cael eu cyflawni mewn modd effeithiol iawn. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro Llywodraeth Cymru fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn glir iawn ynglŷn â'r angen i'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, dilyniant ac asesu gael ei wneud unwaith yn genedlaethol. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi rhagor o wybodaeth inni am y newidiadau.¹⁰⁷

129. Yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, gwelir symudiadau o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol i'r Camau Gweithredu Cwricwlwm, ac Addysgu ac Arweinyddiaeth. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet a'r Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro y bydd rhywfaint o arian yn cael ei dynnu o'r cyllid i ariannu'r swyddogaethau cenedlaethol newydd arfaethedig. Fodd bynnag, rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro sicrwydd inni, er bod cyllid wedi cael ei symud o gwmpas i gefnogi'r strwythurau newydd, nad oes gostyngiad yn yr arian ar gyfer y cwricwlwm, asesu a chyrhaeddiad, a bod buddsoddiad ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Ymrwymodd i rannu nodyn yn amlinellu'r newidiadau cyllido yn fwy manwl.¹⁰⁸

130. Ar 29 Ionawr, rhyddhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddatganiad ysgrifenedig ar Raglen Partneriaeth Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet mai nod Llywodraeth Cymru yw adeiladu “diwylliant newydd ar gyfer gwella ysgolion, ac mae'r cydweithio rhwng ysgolion yn rhan annatod o'r gwaith hwnnw”. Bydd y corff Cymorth Dysgu ac Arweinyddiaeth Proffesiynol Cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu erbyn 1 Ebrill 2025 i ddarparu “maes dysgu proffesiynol symlach a chydlynol.” Nododd y datganiad y bydd y Tîm Gwella Addysg newydd o fewn Llywodraeth Cymru yn “hwyluso trafodaethau rheolaidd ag awdurdodau lleol ac ysgolion” i gysylltu blaenoriaethau cenedlaethol â darpariaeth leol.¹⁰⁹

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 100-115

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 119-131

¹⁰⁹ Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig: Rhaglen Partneriaeth Gwella Ysgolion -- Diweddariad ar y Cynnydd', 29 Ionawr 2025

Grant Addysg Awdurdodau Lleol

131. Yn 2024-25, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyfuno sawl ffrwd gyllido a oedd yn ffrydiau cyllido ar wahân yn flaenorol i greu'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Dwy brif elfen y cyllid hwn oedd y Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, a oedd wedi bod yn werth £128 a £158 miliwn yn y drefn honno yn 2023-24. Ar gyfer 2025-26, cyfanswm gwerth dyraniadau'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol drafft yw £400 miliwn, sy'n gynydd o gymharu â £379 miliwn yn 2024-25. Mae'n cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Diwygio Addysg: £67 miliwn
- Safonau Ysgolion: £168 miliwn
- Cydraddoldeb mewn Addysg (gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion): £168 miliwn
- Cymraeg 2050: £8.6 miliwn

132. Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 daethom i'r casgliad bod “perygl wrth gyfuno grantiau y gall y dibenion unigol fynd ar goll”, a mynegwyd amheumon ynghylch sut y bydd canlyniadau'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn cael eu monitro. Fe wnaethom argymhell y dylai systemau monitro effeithiol fod ar waith ar gyfer y Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau nad yw cyfuno cyllid yn arwain at wanhau unrhyw weithgareddau ac ymyriadau a glustnodwyd yn flaenorol.¹¹⁰

133. Eleni, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am ei barn ar effaith cyfuno'r grant, ac a yw'n gwbl fodlon nad yw'r ffocws ar y gweithgareddau a gefnogwyd gan gyllid a glustnodwyd yn flaenorol wedi lleihau neu wedi'i wanhau.

134. Cawsom ein sicrhau gan Ysgrifennydd y Cabinet, er bod dulliau cyllido newydd ar waith, bod telerau ac amodau ar gael ar gyfer yr holl grantiau i sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario yn unol â'r bwriad. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn derbyn adroddiadau monitro ac yn cynnal cyfarfodydd monitro rheolaidd i awdurdodau lleol mewn perthynas â chyllid grant.¹¹¹

¹¹⁰ Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25', Chwefror 2024, tudalennau 51-52

¹¹¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 91-92

Cronfeydd wrth gefn ysgolion

135. Cofnodir cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ers mis Mawrth 2021, maent wedi bod yn sylweddol uwch na'r norm hanesyddol, er gwaethaf gostyngiadau yn 2023 a 2024 (gweler ffigur 3). Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro'n flaenorol bod ysgolion wedi cronni arian wrth gefn oherwydd y pandemig, gan gynnwys oherwydd eu bod wedi cael adnoddau'n gymharol hwyr yn y flwyddyn ariannol, ac felly bod yr adroddiadau blynyddol yn creu darlun camarweiniol.¹¹²

Ffigur 3. Cronfeydd wrth gefn ysgolion. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 'Cronfeydd wrth gefn ysgolion', diwedd arwyd ddiwethaf ar 24 Hydref 2024

Fel ar 31 Mawrth..	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn (i'r filiwn agosaf)	Cyfartaledd y cronfeydd wrth gefn fesul disgybl (i'r £ agosaf)
2024	£115 miliwn	£253
2023	£208 miliwn	£456
2022	£301 miliwn	£659
2021	£181 miliwn	£393
2020	£32 miliwn	£70
2019	£46 miliwn	£102
2018	£50 miliwn	£111
2017	£46 miliwn	£102
2016	£64 miliwn	£142
2015	£64 miliwn	£141
2014	£60 miliwn	£132

136. Mae ysgolion wedi bod yn defnyddio'r cronfeydd hyn yn gynyddol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhagweld y bydd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn parhau i ostwng ar gyfradd sylweddol oherwydd bod ysgolion yn parhau i fod eu hangen er mwyn mantoli eu cyllidebau, rhywbeth y maent yn dadlau nad yw'n gynaliadwy. Mae'n rhybuddio "wrth i wariant ysgolion barhau i

¹¹² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 69-70

fod yn uwch na'r incwm a geir, mae tebygolrwydd y bydd balansau wrth gefn ysgolion yn fuan mewn sefyllfa diffyg net".¹¹³

137. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am ei barn ynghylch y lefel briodol o gronfeydd wrth gefn, ac a yw'n fodlon bod ysgolion yn cydbwysu'r angen i fod yn ddarbodus gyda'u cyllid gyda rhyddhau arian y mae mawr ei angen i'r ystafell ddosbarth i gefnogi disgyblion.

138. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad oedd yn meddwl ei bod yn bosibl gwneud sylwadau ynghylch yr hyn fyddai'r lefel gywir neu'r lefel anghywir o gronfeydd wrth gefn. Aeth ymlaen i ddweud:

"I think it's understandable in the current climate that schools are anxious and want to hold on to the funding that we've got. This coming year is a one-year settlement as well, which also adds to that anxiety about future financial planning ... So, we have had an abnormally high level of reserves. But they are now coming down."

Aeth ymlaen i gyfeirio at y gwaith ar fformiwlâu cyllid ysgolion i gael darlun cliriach a mwy cyson o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.¹¹⁴

Medr

139. Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yw'r corff hyd braich sy'n gyfrifol am ariannu a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, ac ymchwil ac arloesi a ariennir gan y Llywodraeth. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a daeth yn weithredol ar 1 Awst 2024. Nododd Llywodraeth Cymru ei blaenoriaethau strategol ar gyfer Medr ym mis Chwefror 2024.¹¹⁵

140. Ym mis Hydref, cyhoeddodd Medr ei Gynllun Strategol Drafft ar gyfer ymgynghoriad. Dywed Medr y bydd y Cynllun, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB25-26(6)73: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC)

¹¹⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 79-80

¹¹⁵ Llywodraeth Cymru, 'Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi', 28 Chwefror 2024

Weinidogion Cymru, yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd ynghyd â'r ymateb i'w ymgynghoriad.¹¹⁶

141. Cyfanswm y cyllid refeniw ar gyfer Medr yn y MEG Addysg yw £804.7 miliwn. Yn ogystal â hynny, bydd mwyafrif helaeth y cyllid yn y Cam Gweithredu Prentisiaethau, gwerth £143.9 miliwn ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, yn cael ei drosglwyddo i Medr. Bydd hyn yn dod â chyfanswm y cyllid refeniw ar gyfer Medr yn 2025-26 i tua £948 miliwn. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

“Bydd Medr yn gwneud penderfyniadau ynghylch y dyraniadau hyn dros y misoedd nesaf drwy ystyried ei gyllideb gyffredinol, anghenion y gwahanol sectorau y mae'n eu hariannu, ei ddyletswyddau statudol a'i nodau strategol a blaenoriaethau datganedig gweinidogion. ... Rydym ar ddeall bod creu Medr yn golygu y bydd manylion pwysig am y gyllideb Addysg yn ei gwneud yn ofynnol i'w benderfyniadau cyllido fod yn destun proses graffu ar wahân. Bydd Medr yn nodi ei ddyraniadau cyllid dangosol dros y misoedd nesaf a bydd modd i'r Pwyllgor graffu arno mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny.”¹¹⁷

142. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i Medr ddefnyddio rhywfaint o'i gyllid at ddibenion penodol. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys £29.2 miliwn ychwanegol ar gyfer Medr i'w ddefnyddio fel a ganlyn:

- ar gyfer y cynnydd disgwylidig yn nifer y dysgwyr mewn addysg ôl-16 (£11.9 miliwn);
- i gynyddu ac ehangu gweithgarwch atal hunanladdiad a hunan-niweidio, ac ehangu'r gwasanaeth cyswllt iechyd meddwl i fyfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach (£2 filiwn);
- i gefnogi cydraddoldeb cyflog rhwng ysgolion a cholegau; ac
- i gefnogi prentisiaethau iau.

¹¹⁶ Medr, 'Cynllun Strategol 2025-2030'

¹¹⁷ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalennau 27-28

Mae hefyd yn cynnwys £5 miliwn o gyfanswm y refeniw o'r MEG Addysg a £4.1 miliwn o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio ar gyfer prentisiaethau gradd (fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol).

143. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch a fydd yn ofynnol i Medr gyflwyno ei gyllideb ei hun i Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo cyn penderfynu ar y gyllideb derfynol, ac a allwn ddisgwyl cael gweld y dyraniadau dangosol hynny - a sut - er mwyn craffu ar y penderfyniadau hynny cyn i'r dyraniadau terfynol gael eu gwneud.

144. Cynghorodd y Gweinidog ni i gysylltu â Medr yn uniongyrchol i drefnu i graffu ar Medr a'i benderfyniadau ynghylch dyraniadau ariannol. Dywedodd nad yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru gymeradwyo penderfyniadau cyllido Medr. Fodd bynnag, dywedodd wrthym hefyd y bydd Medr yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru sut y maent yn bwriadu gwario ei gyllideb ddangosol, cyn cael llythyr cyllido ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau ei ddyraniad o'r gyllideb ar gyfer 2025-26. Bydd Medr hefyd yn destun proses fonitro ffurfiol chwarterol drwy gyfarfodydd gyda Gweinidogion a swyddogion i gydweithio ar faterion polisi a darparu cyfeiriad parhaus ar faterion cyfoes a blaenoriaethau gweinidogol.¹¹⁸

145. Fe wnaethom hefyd ofyn am eglurhad ynghylch a yw'r meysydd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Medr eu hariannu gyda'r £29.2 miliwn ychwanegol, fel y nodir ym mharagraff 142 uchod, wedi eu clustnodi.

146. Dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd yr arian a ddarperir i Medr o'r MEG Addysg a MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cael ei glustnodi er mwyn rhoi darlun priodol o'r sefyllfa i'r priod Weinidogion. Mewn meysydd eraill, fel prentisiaethau gradd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Medr i weld a fyddai'n briodol clustnodi'r cyllid yn ffurfiol. Ychwanegodd y byddai dyraniadau wedi'u clustnodi'n cael eu rhoi ar waith os oes dyraniadau'n ymwneud â throsglwyddiadau i Medr o MEGs eraill. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl clustnodi £600,000 ar gyfer prentisiaethau iau yn benodol, a dywedodd y Gweinidog fod y prentisiaethau hyn wedi trawsnewid bywydau rhai pobl ifanc.¹¹⁹

147. Eglurodd y Gweinidog y byddai cyllid i wella ac ehangu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn cynnwys cyllid ar gyfer ymchwil a chasglu tystiolaeth i wella

¹¹⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 141-144

¹¹⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 159-163

ein dealltwriaeth o batrymau cyfranogiad mewn addysg ôl-16. Byddai cyllid hefyd ar gael i weithredu argymhellion Adroddiad Lusher ac adroddiad Hefin David AS 'Pontio i Fyd Gwaith'.¹²⁰

148. Mae Medr i fod i roi tystiolaeth inni ar 6 Chwefror at ddibenion gwaith craffu cyffredinol ac i gefnogi ein hymchwiliad parhaus 'Llwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16'. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd in ni gan Medr, nodir:

“Mae Medr yn cwblhau ei ddyraniadau cyllideb dangosol ar gyfer 2025/26 a bydd crynodeb lefel uchel yn cael ei ddarparu i'r sector ar 31 Ionawr. Bydd copi hefyd yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ar yr un pryd.”

Mae Medr hefyd yn dweud, yn y dyfodol, y gallai'r holl gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i Medr fod yn gyllid heb ei neilltuo.¹²¹

Materion eraill yn ymwneud ag addysg ôl-16

Rhaglen Seren

149. Mae rhaglen Seren yn “yn rhaglen a ariennir yn llawn i gefnogi dyheadau ac uchelgeisiau'r dysgwyr mwyaf galluog, gan helpu i ehangu eu gorwelion, datblygu angerdd yn eu maes astudio dewisol, a chyrraedd eu potensial academaidd.” Un o dri amcan strategol y rhaglen yw helpu dysgwyr i lwyddo mewn prifysgolion blaenllaw.¹²²

150. Yn 2023, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd wrthym fod y Llywodraeth yn edrych ar yr hyn y gall ei wneud i sicrhau bod Seren yn gallu annog y dysgwyr mwyaf disglair i ddewis opsiynau galwedigaethol ar lefelau uwch.¹²³ Ar gyfer 2025-26, mae £1.5 miliwn wedi'i ddyrannu yn y BEL Polisi a Gweithredu Addysg Drydyddol i “helpu i gynyddu ac ehangu cyfranogiad mewn addysg ôl-16, gan gynnwys ehangu mynediad i raglen Seren er mwyn helpu dysgwyr difreintiedig i ymgymryd ag astudiaethau uwch”.¹²⁴ Gofynnwyd i'r

¹²⁰ Gweler: Lusher, S. et al, 'Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru', Gorffennaf 2023; David, H., 'Pontio i Fyd Gwaith: Adroddiad i Lywodraeth Cymru', Mehefin 2023

¹²¹ Cyhoeddir y papur yn fuan ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. Bydd ar gael erbyn 4 Chwefror 2025 fan bellaf yn: Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Hybrid) - Dydd Iau, 6 Chwefror 2025 09.30'

¹²² Llywodraeth Cymru, 'Academi Seren'

¹²³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 74-75

¹²⁴ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 - Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalen 8

Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch beth mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu wrth “ehangu mynediad”, ac a allai hyn gynnwys ehangu'r rhaglen i gynnwys opsiynau galwedigaethol ar lefelau uwch.

151. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailddatblygu'r ffocws ar gymhwysedd i nodi pob dysgwr â photensial mawr a gwneud yn siŵr ei bod yn edrych ar yr elfennau galwedigaethol hefyd, nid dim ond yr elfennau academaidd cul, a dylunio rhaglen i ddarparu'r llwybr addysgol mwyaf priodol i ddysgwyr, a fydd, unwaith eto, yn alwedigaethol yn ogystal ag academaidd. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cyd-ddylunio strwythur cymorth a chyflawni newydd gydag ysgolion i dreialu ymyriadau newydd a dileu rhwystrau i gyfranogiad yn y rhaglen.¹²⁵

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

152. Mae'r Coleg yn creu ac yn hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydweithio â cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Yn ystod Cyllideb Ddrafft y Llynedd (2024-25) ni dderbyniodd y Coleg gynnydd disgwylidig yn ei gyllid o gymharu â 2023-24.¹²⁶ Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd yn cydnabod y gallai hyn “olygu y bydd yn rhaid i'r Coleg dynnu'n ôl o rai ymrwymadau a wnaed i golegau AB a darparwyr prentisiaethau” ac y gallai “hefyd arwain at leihad yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg”.¹²⁷

153. Ar gyfer y flwyddyn 2025-26, disgwylir i'r Coleg dderbyn cyllid ychwanegol o £494,000, gan ddod â chyfanswm ei gyllid i £10.4 miliwn. Dywed Llywodraeth Cymru y bydd hyn yn “galluogi'r Coleg i aildechrau ar y gwaith o ymestyn darpariaeth drwy ehangu ei raglen o grantiau datblygu i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau”.¹²⁸ Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch pa asesiad sydd wedi'i wneud, os o gwbl, o'r effaith a gafodd dyraniad cyllid y llynedd ar allu'r Coleg i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer

¹²⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 166-168

¹²⁶ Yn wreiddiol roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu cyllideb y Coleg rhwng 2023-24 a 2024-25. Gweler: Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg (MEG)', tudalen 5 Fodd bynnag, fe wnaeth Cyllideb Ddrafft 2024-25 gadw cyllid y Coleg ar yr un gyfradd. Gweler: Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg (MEG)', tudalen 32

¹²⁷ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg (MEG)', 17 Rhagfyr 2024, tudalen 32

¹²⁸ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG)', Rhagfyr 2024, tudalen 29

colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau, yn ogystal ag a yw'r gostyngiad yn y cyllid wedi arwain at golli momentwm o ran y cynnydd.

154. Eglurodd y Gweinidog fod y cyllid ar gyfer y Coleg yn 2024-25 yr un fath ag yr oedd yn 2023-24. Dywedodd wrthym ei bod yn anodd pennu effaith bosibl y gyllideb a gynhelir yn 2024-25. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y data diweddaraf sydd ar gael (ar gyfer 2022-23), sy'n dangos cynnydd sylweddol yng nghyfran y gweithgareddau dysgu mewn lleoliadau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sy'n digwydd yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chyfran sy'n weddol debyg i'r hyn a welir yn y sector ysgolion ehangach.¹²⁹

Taith

155. Mae'r gyllideb ar gyfer rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol Llywodraeth Cymru, Taith, yn cael ei chynnal ar gyfer 2025-26 ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol gyfredol (2024-25). Fodd bynnag, y llynedd, bu gostyngiad o bron i 20 y cant yn nyrianiad y gyllideb ar gyfer Taith o gymharu â 2023-24.¹³⁰ Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch a oedd y gostyngiad hwnnw wedi cael unrhyw effaith ar gyfleoedd dysgwyr, a pham nad oedd cyllid ychwanegol yn cael ei gynnig ar gyfer Taith ar gyfer 2025-26.

156. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y ffaith bod cyllid wedi'i ailgyfeirio o raglen Taith yn effeithio ar gyfleoedd dysgu rhyngwladol i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar leihau costau gweithredol i wneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer profiadau dysgu. Y ffocws parhaus ar gyfer Taith, esboniodd, yw sicrhau'r effaith fwyaf o'r cyllid sydd ar gael, gan flaenoriaethu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r prosiectau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau dysgu mwyaf.¹³¹

Cyllid cyfalaf

157. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £35 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2024-25) ers cymeradwyo Cyllideb Derfynol 2024-25.¹³² Mae'r £35 miliwn hwn yn cynnwys:

¹²⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 170-173

¹³⁰ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 -- Y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg (MEG)', 17 Rhagfyr 2024, tudalen 32

¹³¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 176-178

¹³² Ni fydd lefel derfynol cyllideb 2024-25 yn cael ei chadarnhau tan yr 2il Gyllideb Atodol ym mis Chwefror.

- £20 miliwn ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Rhagfyr 2024.¹³³ (Mae gwariant sy'n ymwneud ag atgyweirio a chynnal a chadw fel arfer yn cael ei ystyried yn draul refeniw. Fodd bynnag, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod y sesiwn graffu lafar fod yr £20 miliwn hwn wedi'i ddynodi'n gyllid cyfalaf.¹³⁴)
- £15 miliwn ar gyfer platform ar-lein Hwb.¹³⁵

158. Mae'r gyllideb ar gyfer cyllid cyfalaf o fewn y MEG Addysg ar gyfer 2025-26 £28 miliwn (neu 8.1 y cant) yn uwch na Chyllideb Derfynol 2024-25 a 'llinell sylfaen ddiwygiedig' Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn y pen draw, efallai y bydd dyraniad cyfalaf Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn is nag 2^{il} Gyllideb Atodol 2024-25, o ganlyniad i'r dyraniad ychwanegol o £35 miliwn yn ystod y flwyddyn a dafodir uchod.

159. Mae mwyafrif helaeth y cyllid cyfalaf o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2025-26 ar gyfer gwella'r ystâd addysg a gofal plant drwy brosiectau adeiladu newydd a phrosiectau adnewyddu mawr o dan y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae £371 miliwn o'r £374.5 miliwn o gyllid cyfalaf cyffredinol yn 2025-26 ar gyfer BEL y Seilwaith Addysg, gyda'r gweddill yn bennaf ar gyfer gweinyddu cymorth i fyfyrwyr (£2.5 miliwn), Medr (£500,000), Cymwysterau Cymru (£250,000) ac Estyn (£250,000).

160. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sut y mae'n bwriadu gwario'r £28 miliwn ychwanegol sydd ar gael ar gyfer cyllid cyfalaf cyffredinol yn 2025-26. Eglurodd fod y cyllid ychwanegol hwn wedi'i ddyrannu i'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Mae hyn yn cynnwys £5 miliwn ar gyfer ADY mewn sefydliadau addysg bellach, £5 miliwn i gefnogi datgarboneiddio'r ystâd addysg, a £2 filiwn i gynyddu'r dyraniad grant ar gyfer Hwb a grant seilwaith TGCh yr ysgol. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi gwario £2 biliwn ar gyfalaf ysgolion a cholegau ers 2014.¹³⁶

161. Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd wrthym fod chwyddiant a chostau adeiladu uwch yn effeithio ar brosiectau llai yn arbennig, fel y rhai mewn ysgolion cynradd gan fod ganddynt

¹³³ Llywodraeth Cymru, 'Datganiad Ysgrifenedig - Cyllid Ychwanegol i Gefnogi Addysg', 6 Rhagfyr 2024

¹³⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 48-49

¹³⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

¹³⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 62

lai o allu i elwa ar yr arbedion maint sy'n gysylltiedig â phrosiectau mwy.¹³⁷ Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg pa effaith yr oedd chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau ysgolion.

162. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod chwyddiant wedi bod yn her ers sawl blwyddyn bellach. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer meincnodi i ddeall y costau nodweddiadol fesul metr sgwâr ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau. Mae'r costau meincnodi hyn yn bwydo i brosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gyllid.¹³⁸

163. Fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet am sicrwydd y bydd awdurdodau lleol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud y cyfraniadau ariannol gofynnol i brosiectau o dan y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

164. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei chyfraniad o 50 y cant o dan Fand A blaenorol y rhaglen i 65 y cant o gostau o dan y Band B presennol, a hyd yn oed yn fwy ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr. Pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyfalaf ysgolion a cholegau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddi i wneud hynny.¹³⁹

Ein barn ni

Presenoldeb, cyrhaeddiad a 'haen ganol' gwella ysgolion

165. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae swyddogaethau gwella ysgolion yn cael eu cyflawni. Mae'n ymddangos yn debygol mai awdurdodau lleol, yn hytrach na chonsortia rhanbarthol, fydd yn arwain y gwaith ar wella ysgolion, gyda chefnogaeth corff dysgu ac arweinyddiaeth proffesiynol newydd a thîm gwella ysgolion Llywodraeth Cymru.

166. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod awdurdodau lleol bob amser wedi bod â'r cyfrifoldeb statudol dros wella ysgolion, ac felly roedd consortia rhanbarthol yn cyflawni swyddogaethau ar ran awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn deall bod newidiadau i ddsbarthiad y cyllid ar gyfer amcanion addysg allweddol wedi digwydd yn wreiddiol yn 2024-25, drwy symud o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol i'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

¹³⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 131-137

¹³⁸ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 64

¹³⁹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 16 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 67

Serch hynny, ni ddylem danamcangyfrif maint y newidiadau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, ac i ba raddau y byddant yn newid y maes gwella ysgolion yng Nghymru.

167. Mae llawer o gyfrifoldeb yn cael ei roi ar awdurdodau lleol o dan y trefniadau newydd arfaethedig. Ni ddylem anghofio bod Llywodraeth Cymru ychydig dros ddegawd yn ôl o'r farn nad awdurdodau lleol oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion, a dewisodd yn lle hynny yr un model cymorth rhanbarthol ag y mae Ysgrifennydd y Cabinet wrthi'n ei ddatgymalu ar hyn o bryd. Mae'n bosibl iawn y gellir cyfiawnhau'r newidiadau hyn; nid oes gennym ni fel Pwyllgor, am y tro o leiaf, farn ar gynlluniau Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu trafod y pwnc hwn yn fanylach yn ddiweddarach eleni.

168. Nodwn ddatganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ar 29 Ionawr, yn enwedig y wybodaeth yn y datganiad hwnnw am elfennau'r strwythur gwella ysgolion arfaethedig. Fodd bynnag, rydym yn dal yn aneglur sut y bydd dychwelyd at wasanaethau gwella ysgolion wedi'u harwain gan awdurdodau lleol, yn hytrach na'r model consortia rhanbarthol, yn ysgogi cydweithio rhwng ysgolion, a sut y mae'r cydweithio hwnnw'n cyd-fynd â'r corff dysgu ac arweinyddiaeth proffesiynol newydd a 'Tîm Gwella Addysg' Llywodraeth Cymru. Yn bwysicaf oll, hoffem gael rhagor o wybodaeth ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y trefniadau arfaethedig yn sicrhau manteision pendant i ddysgwyr.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r trefniadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion, gan gynnwys:

- sut y bydd y cydweithio ychwanegol rhwng ysgolion yn cael ei hwyluso gan y trefniadau a'r strwythur newydd, yn hytrach na'r model consortia rhanbarthol;
- y rhesymeg dros greu'r corff Cymorth Dysgu ac Arweinyddiaeth Proffesiynol Cenedlaethol newydd, pa weithgaredd dysgu proffesiynol y bydd yn ei ddarparu, a sut y bydd hyn yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion a'r gwaith o wella ysgolion; a
- rôl ymarferol Tîm Gwella Addysg canolog Llywodraeth Cymru, a pha ryngweithio y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion unigol ddisgwyl ei gael gyda'r tîm hwnnw.

Medr

169. Mae dyraniad cyllideb sylweddol Medr yn cydnabod ehangder cylch gwaith Medr a'r dylanwad strategol sylweddol a gaiff ar dirwedd addysg drydyddol Cymru. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch na ddylai Medr, fel corff hyd braich, gael ei ddylanwadu'n ormodol gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys sut y mae Medr yn defnyddio ei ddyraniad cyllid. Fel y nododd y Gweinidog, gwnaethom yr un dadleuon yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

170. Teimlwn yn gryf bod yn rhaid i unrhyw sefydliad sy'n cael dyraniadau cyllid mor sylweddol fod yn destun proses graffu gyhoeddus gadarn. Dyma'r un egwyddor ag yr ydym ni a phwyllgorau eraill y Senedd yn ei defnyddio i graffu ar waith Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, ac yn wir llawer o sefydliadau eraill sy'n cael llawer llai o arian cyhoeddus na'r £948 miliwn y mae Medr i fod i'w gael mewn incwm refeniw yn unig.

171. Rydym yn croesawu cynnig Medr i rannu gyda ni grynodedb lefel uchel o'i ddyraniadau o'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2025-26. Byddwn yn cyd-drafod yn uniongyrchol â Medr i sicrhau bod y crynodedb hwn yn rhoi digon o fanylion inni allu cyflawni ein cyfrifoldebau craffu ariannol. Byddwn hefyd yn cysylltu â Medr i sefydlu patrwm o waith craffu blynyddol ar adroddiad blynyddol a chyfrifon Medr. Edrychwn ymlaen at weithio'n adeiladol gyda Medr i hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd gwariant cyhoeddus ar draws meysydd hanfodol polisi addysg drydyddol.

Argymhelliad 10. Dylai Medr roi gwybodaeth inni am ei gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025-26, a gweithio gyda ni wrth inni sefydlu patrwm o waith craffu blynyddol ar ei gyllideb arfaethedig a'i adroddiad blynyddol a chyfrifon er mwyn sicrhau bod Medr yn cael ei ddwyn i gyfrif am sut y mae'n defnyddio cyllid cyhoeddus i gefnogi addysg drydyddol ledled Cymru.

Seren

172. Mae gwahaniaeth barn ymhlith aelodau'r Pwyllgor am raglen Seren yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, rydym yn cytuno bod ymestyn y rhaglen i ddysgwyr ar lwybrau galwedigaethol yn ddatblygiad cadarnhaol, ac felly rydym yn croesawu ymrwymadau'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch i ailddatblygu'r ffocws ar gymhwysedd. Gofynnwn iddi ddarparu mwy o fanylion am y cynlluniau hynny, ac amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach ei chynlluniau i ailwampio'r meini prawf cymhwysra ar gyfer rhaglen Seren i gynnwys dysgwyr ar lwybrau galwedigaethol, amserlen ar gyfer gweithredu'r cynlluniau hynny, a sut y mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cwmpasu unrhyw gostau ariannol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau.

Cyllid cyfalaf

173. Rydym yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn glir wrthym fod £20 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn 2024-25 wedi'i ddyrannu fel cyllid cyfalaf ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion. Fodd bynnag, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi nad yw gwariant cyfalaf yn cynnwys "gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol".¹⁴⁰

174. Er bod £20 miliwn i helpu i wella ansawdd yr ystâd ysgolion bresennol yn agwedd gadarnhaol iawn, ni waeth sut y cyfrifir amdano, gwyddom fod dyraniadau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU wedi bod yn anrhagweladwy iawn yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'r cyllid cyfalaf ychwanegol hwn yn cael ei ailadrodd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ac efallai na fydd ar gael yn ystod y flwyddyn oni wneir dyraniad tebyg yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, bydd yr angen i wneud atgyweiriadau a chynnal a chadw ein hystâd ysgolion yn sicr yn parhau, o flwyddyn i flwyddyn.

175. Mae cyllid ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion fel arfer yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol (ac ymlaen i ysgolion) drwy gyllid refeniw yn y Setliad Llywodraeth Leol. Hoffem ddeall mwy am pam y mae Llywodraeth Cymru wedi dewis dosbarthu cyllid ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion drwy gyllid cyfalaf y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn hytrach na'i drosglwyddo i awdurdodau lleol yn y ffordd arferol, a chanlyniadau'r penderfyniad hwnnw ar gyfer cylchoedd gwariant yn y dyfodol.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pam mae'r £20 miliwn o bunnoedd a glustnodwyd ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion yn 2024-25 wedi'i ddsbarthu fel gwariant cyfalaf er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru i'r gwrthwyneb; dylai nodi pam na ddarparwyd y cyllid hwn

¹⁴⁰ Llywodraeth Cymru, 'Canllawiau achos busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy', Ionawr 2022, tudalen 29

drwy'r Setliad Llywodraeth Leol; a dylai egluro a yw'r cyllid hwn ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw wedi bod yn rhan o'r llinellau sylfaen cyfalaf/refeniw ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26, ac a yw'n debygol o fod yn rhan ohonynt yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.